Wales Office
Swyddfa Cymru

# Swyddfa Cymru

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-17

Wales Office
Swyddfa Cymru

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-17

(Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017)

Cyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin
yn unol ag Adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon
y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i Dŷ'r Cyffredin
Drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

**Gorchmynnwyd i'w hargraffu gan Dŷ'r Cyffredin**

13 Gorffenaf 2017

HC 201

Rhan o gyfres o gyhoeddiadau Adrannol yw hon sydd, ynghyd â Phrif Amcangyfrifon 2017-18, y ddogfen Gwariant Cyhoeddus: Dadansoddiadau Ystadegol 2017, ac Amcangyfrifon y Cyflenwad 2016-17: Gwybodaeth Gyllidebol Atodol, yn cyflwyno alldro'r Llywodraeth ar gyfer 2016-17 a'r gwariant a gynllunnir ar gyfer 2017-18.

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2017**

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau f3 y Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open–government–licence/version/3 neu anfonwch e-bost at PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk Os nodwyd bod deunydd trydydd parti wedi'i ddefnyddio, rhaid gofyn am ganiatâd deilydd y sawl biau'r hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn wales.office@walesoffice.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.gov.uk/government/publications ac oddi ar ein gwefan yn www.walesoffice.gov.uk

ISBN y fersiwn brint 9781474147330

ISBN fersiwn y We 9781474147347

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Grŵp Williams Lea ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 27061701 07/17

Argraffwyd y ddogfen hon ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

# Contents


**Pennod 1 Yr Adroddiad Perfformaid** **1**

Rhagair Gweinidogol 1

Cyflwyniad y Cyfarwyddwr 3

Golwg Gyffredinol ar yr Adran 4

**Pennod 2 Yr Adroddiad Atebolrwydd** **18**

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol 18

Adroddiad y Cyfarwyddwyr 18

Datganiad am Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 20

Datganiad Llywodraethu 22

Adroddiad am Daliadau a Staff 33

Adroddiad Taliadau 33

Adroddiad am Staff 43

Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio 49

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin 56

**Pennod 3 Y Datganiadau Ariannol** **59**

**Atodiad1: Tablau Ariannol Craidd Gwariant Cyhoeddus** **80**

# 1 Yr Adroddiad Perfformiad

## Rhagair Gweinidogol

Mae eleni wedi bod yn un o'r blynyddoedd mwyaf cyffrous ac arwyddocaol yn hanes gwleidyddol y DU. Wrth i'r trafodaethau ynghylch gadael yr UE ddechrau nid ydym yn dibrisio maint yr her sydd o'n blaenau, ond mae'n rhaid i ni hefyd edrych ymlaen at y cyfleoedd a gyflwynir yn sgil gadael yr UE.

Byddwn yn cyflwyno cytundeb Brexit sy'n gweithio ar gyfer pob rhan o'r DU, gan gynnwys Cymru, ac yn creu gwlad gryfach a thecach drwy gryfhau ein heconomi, mynd i'r afael ag anghyfiawnder a hyrwyddo cyfleoedd ac uchelgeisiau.

Wrth i ni adael yr UE, mae Undeb y DU, a gwaith Llywodraeth y DU yng Nghymru, yn bwysicach nag erioed. Rwyf yn hynod falch bod y Prif Weinidog wedi gofyn i mi barhau gyda fy ngwaith fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru – sef bod yn llais Llywodraeth y DU yng Nghymru, ac yn llais Cymru yn Whitehall. Hoffwn ddiolch i holl dîm Swyddfa Cymru am barhau i ymateb i'r her o gyflwyno ein blaenoriaethau ar gyfer pobl Cymru.

Mae gennym gyfle i sicrhau dyfodol mwy disglair i Brydain, ac yma yng Nghymru mae gennym lwyfan gwych fel sylfaen i adeiladu arno. Ers 2010 rydym wedi gweld y twf cyflymaf y tu allan i Lundain, ac yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweld lefelau cyflogaeth gwell nag erioed yng Nghymru.

Mae Cymru yn parhau i ragori fel canolfan ar gyfer ymchwil, arloesedd, gweithgynhyrchu medrus a thechnoleg. Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi croesawu nifer o fuddsoddiadau i Gymru, gan gynnwys contract amddiffyn gwerth sawl miliwn o bunnoedd i Qioptic yng Ngogledd Cymru; buddsoddiad gan Aston Martin mewn canolfan weithgynhyrchu newydd yn Ne Cymru; ac yn gynharach eleni, daeth canolfan ragoriaeth fyd-eang jetiau ymladd F35 i sir y Fflint, gan greu miloedd o swyddi ac arllwys biliynau o bunnoedd i'r economi leol. Byddwn yn parhau i gefnogi holl ddiwydiannau Cymru, ac rwy'n parhau wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau dyfodol cynaliadwy i ddur ym Mhort Talbot.

Serch hynny, tra mae llawer o bobl, lleoedd a busnesau yn ffynnu, mae cyfleoedd a thwf yn dal yn anghyson ledled y wlad. Dyna pam ein bod wedi lansio ymgynghoriad ar ein strategaeth ddiwydiannol fodern, newydd, sy'n cwmpasu'r DU gyfan, ac yn rhan hollbwysig o'n cynllun i sicrhau economi gryfach a chymdeithas decach – lle mae cyfleoedd ar gael ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Ynghyd â gweddill y wlad, mae Cymru nawr yn wynebu byd newydd o gyfleoedd wrth i ni ddechrau ein trafodaethau ynghylch gadael yr UE, cryfhau ein

perthnasoedd â'n partneriaid masnachu presennol a ffurfio perthnasoedd â gwledydd newydd o bob cwr o'r byd. Byddaf yn sicrhau y bydd gan fusnesau Cymru fynediad llawn i'r gefnogaeth a'r cyllid sy'n cael ei ddarparu drwy Adran Masnach Ryngwladol Llywodraeth y DU.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf hefyd wedi gweld Llywodraeth y DU yn buddsoddi'n sylweddol yng Nghymru, gan gynnwys buddsoddi mewn band eang, gwaith i wella darpariaeth symudol, a Bargen Ddinesig i Fae Abertawe y mae disgwyl iddi greu dros 9,000 o swyddi ac arwain at fuddsoddiad o bron i £1.3 biliwn. Byddaf hefyd yn parhau i weithio ar weithredu Bargen Ddinesig Caerdydd, yn ogystal ag edrych tuag at y trafodaethau ynghylch Bargen Twf Gogledd Cymru, gan sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ein cysylltiadau â Phwerdy Gogledd Lloegr.

Rydym hefyd wedi cyflawni newid cyfansoddiadol sylweddol i'r setliad datganoli ar ôl i Ddeddf Cymru 2017 gael Cydsyniad Brenhinol yn gynharach eleni. Mae'r Ddeddf yn sicrhau setliad datganoli cryfach, tecach a mwy atebol i Gymru, gyda setliad ariannol seiliedig ar anghenion newydd sy'n rhoi diogelwch ariannol hirdymor i Gymru.

Ni fyddai llawer o'r cyflawniadau hyn wedi bod yn bosibl heb berthynas gadarnhaol rhwng gweinidogion y DU a Llywodraeth Cymru. Yn y cyfnod pwysig hwn, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn wynebu'r dyfodol gyda'n gilydd fel undeb unedig. Fel y dywedodd y Prif Weinidog mewn derbyniad yn Stryd Downing ar Ddydd Gŵyl Dewi eleni, "un Deyrnas Unedig ydyn ni – Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru. Ac fel un Deyrnas Unedig y byddwn ni'n llwyddo."

Fe welir pa mor gryf yw ein hymrwymiad i Gymru drwy ein penderfyniad i ddarparu mwy o swyddi i bobl sy'n gweithio, mwy o fuddsoddiad yn seilwaith Cymru a bargen ariannu deg i bobl Cymru. Gan edrych ymlaen, bydd ein hymrwymiad i gyflwyno Cronfa Ffyniant a Rennir yn lleihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau ledled y DU ac yn brawf clir o'r DU yn gweithio fel un Undeb. Byddwn hefyd yn cael gwared ar dollau i'r holl gerbydau sy'n defnyddio Pont Hafren. Bydd hyn yn cryfhau'r bartneriaeth werthfawr rhwng de orllewin Lloegr a de Cymru, gan ddod â busnesau a chymunedau yn agosach at ei gilydd a chefnogi'r Undeb.

Nid oes amheuaeth ein bod yn byw mewn cyfnod pwysig yn hanes ein gwlad, ond rwy'n credu'n gryf y bydd y flwyddyn i ddod yn cynnig llawer o gyfleoedd cyffrous i Gymru ac i weddill y DU ffynnu.

**Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS**
**Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

# Cyflwyniad y Cyfarwyddwr

Blwyddyn a fydd yn aros yn y cof i'r rhan fwyaf ohonom oedd 2016-17. Petai rhywun wedi dweud wrthyf ar y cychwyn nad Mesur Cymru fyddai'r peth mwyaf y byddai Swyddfa Cymru yn ymdrin ag ef, byddwn wedi bod yn amheus a dweud y lleiaf. Nid oes amheuaeth ynghylch arwyddocâd y mesur na'r fframwaith ariannol y cytunwyd arno ochr yn ochr ag ef, ac rwy'n eithriadol o falch o'r ffordd y gwnaeth Swyddfa Cymru arwain y gwaith hwn. Ond rwyf yn falchach byth o'r ffordd y gwnaethom ymateb i ddigwyddiadau 23 Mehefin 2016. Aethom ati i ymgysylltu'n ddi-oed â phartneriaid allanol i wrando ar eu barn am y materion a'r blaenoriaethau sy'n wynebu Cymru wrth i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ac rydym wedi cynnal y ddeialog honno byth ers hynny. Symudwyd yn gyflym yn yr un modd i sicrhau ein bod yn rhan o'r holl drafodaethau pwysig a'r llinynnau gwaith ar draws Whitehall. Drwy fynd ati fel hyn i ddylanwadu yn Whitehall ac estyn allan ar yr un pryd i sefydliadau drwy Gymru, llwyddwyd i gytuno ar Fargen Dinas Ranbarth Bae Abertawe a llunio datblygu Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn iddi fod yn strategaeth ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd.

Ni fu erioed adeg bwysicach i Swyddfa Cymru fod yn llais cryf yn San Steffan ac yn bresenoldeb amlwg yng Nghymru. Dyna'n union fyddwn ni.

**Glynne Jones**
**Cyfarwyddwr**

# Golwg Gyffredinol ar yr Adran

## Mae Cynllun Busnes Swyddfa Cymru'n disgrifio ein gwaith o dan dri amcan:

Mae Swyddfa Cymru'n cynorthwyo Ysgrifennydd Gwladol Cymru i hybu buddiannau gorau Cymru o fewn Teyrnas Unedig gref. Ni yw wyneb Llywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghymru a llais Cymru yn Whitehall. Ein prif nod, a honno'n nod barhaus, yw cefnogi Undeb y Deyrnas Unedig.

Yn gysylltiedig â'r prif amcan hwn, mae gennym nod sy'n pwyso arnom fwy, sef sicrhau bod y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru, yn y sefyllfa gryfaf posibl wrth ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Ein tri phrif amcan sy'n gefn i'r blaenoriaethau hyn yw:

### *Amcan 1 – Economi Gryfach a Phrydain Fyd-eang: cefnogi economi gref yng Nghymru sydd a'i golyguon tuag allan.*

***Sicrhau bod gan y DU bolisi masnach a buddsoddi tramor sy'n cyflawni dros Gymru. Gweithio gyda'r Adran Masnach Ryngwladol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i hyrwyddo Cymru a busnesau Cymru i'r byd.***

Mae Swyddfa Cymru wedi creu cysylltiadau cryf â'r Adran Masnach Ryngwladol er mwyn sicrhau bod busnesau Cymru'n ymwybodol o waith Llywodraeth y Deyrnas Unedig i hyrwyddo masnach Prydain drwy'r byd.

Ym mis Rhagfyr, croesawodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol i Gaerdydd. Trefnwyd cynhadledd bwrdd crwn gyda busnesau i drafod dyfodol polisi masnach y Deyrnas Unedig. Mae Swyddogion Swyddfa Cymru a'r Adran Masnach Ryngwladol wedi parhau i gynnal y sgwrs hon â byd busnes, gan sicrhau bod llais Cymru'n cael ei glywed wrth ddatblygu polisi yn y maes hwn.

Ym mis Mawrth 2017, bu'r Adran Masnach Ryngwladol a Swyddfa Cymru'n cyd-gynnal Cynhadledd Allforio Busnes Cymru yng Nghaerdydd i dynnu sylw at y cymorth a'r cyngor sydd ar gael i fusnesau drwy Gymru sy'n gobeithio allforio. Llwyddodd y digwyddiad i ddangos y flaenoriaeth y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ill dwy'n ei rhoi ar hybu allforion o Gymru.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r Adran Masnach Ryngwladol a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli'n dda yn Fforwm Busnes a Buddsoddi Quatar–DU yn Birmingham, lle y dangoswyd arbenigedd Cymru gan gwmnïau megis Aston Martin, Airbus, Excelerate a Phrifysgol Abertawe.

***Gwireddu buddsoddi Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn seilwaith***

Mae gan y Llywodraeth hanes cryf o fuddsoddi yn ein seilwaith rheilffyrdd ac mae Gweinidogion Swyddfa Cymru a'i swyddogion wedi chwarae rhan bwysig yn

pwyso i sicrhau gwelliannau i gysylltedd y rheilffyrdd yn y gogledd a'r de. Ym mis Medi, rhoddodd yr Is-Ysgrifennydd Seneddol araith i Fforwm Polisi Cymru pan soniodd am gyfraniad sylweddol Llywodraeth y Deyrnas Unedig at fuddsoddi yn y seilwaith trafnidiaeth yng Nghymru. Mae swyddogion Swyddfa Cymru hefyd yn cynorthwyo Tasglu Rheilffordd Gogledd Cymru Mersi Dyfrdwy i ddatblygu cynigion ar gyfer buddsoddi yn seilwaith rheilffyrdd gogledd Cymru.

Parhaodd swyddogion Swyddfa Cymru i gydweithio'n agos â chydweithwyr yn yr Adran Drafnidiaeth a swyddogion Llywodraeth Cymru i hwyluso'u proses gaffael barhaus a chwblhau'r trefniadau ar gyfer datganoli masnachfraint Cymru a'r Gororau. Bydd hyn yn cynnwys cytundeb ynglŷn â thelerau cytundeb asiantaeth a chwblhau trosglwyddo'r swyddogaethau masnachfreinio erbyn diwedd eleni.

Ym mis Ionawr, lansiodd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog Ffyrdd ymgynghoriad ar y cyd ynglŷn â chynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer dyfodol y Pontydd dros Afon Hafren. Pan fydd y Pontydd yn dychwelyd i berchnogaeth gyhoeddus, mae'r Llywodraeth yn bwriadu diddymu'r categori pris uchaf ar y doll i faniau a bysiau bach, a haneru'r tollau i bob cerbyd sy'n eu defnyddio. Gostwng y tollau yw un o'r prif bethau mae busnesau ar ddwy ochr Afon Hafren wedi bod yn gofyn amdano ers blynyddoedd ac roedd yr ymateb i gyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol yn ffafriol.

Ym mis Mawrth, croesawodd yr Ysgrifennydd Gwladol y cyhoeddiad mai Port Talbot oedd y lleoliad a ffefrid ar gyfer un o'r ychwanegiadau diweddaraf at ystâd carchardai'r Deyrnas Unedig, gan gyfeirio at y cyfleoedd economaidd y bydd hyn yn eu cynnig i'r gymuned leol, yn union fel yr oedd economi'r gogledd wedi elwa o £23m yn sgil adeiladu Carchar EM Berwyn yn Wrecsam, a ddechreuodd dderbyn ei garcharorion cyntaf ym mis Chwefror.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cydweithio â Greg Clark a Gweinidogion eraill i geisio cynnal diwydiant gwneud dur cynaliadwy yng Nghymru. Ar 19 Ionawr, cynullwyd cyfarfod pwysig â'r prif undebau yn safleoedd allweddol Tata yng Nghymru. Ar ôl y cyfarfod hwn, argymhelliad yr undebau i'w haelodau oedd y dylent bleidleisio o blaid cynnig pensiwn diwygiedig Tata. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol a Swyddfa Cymru'n dal i ymgysylltu â phob partner gyda golwg ar sicrhau canlyniad llwyddiannus o ran pensiynau a mater ehangach dyfodol cynhyrchu dur.

Mae sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gan Gymru at ddiwallu anghenion ynni'r Deyrnas Unedig yn flaenoriaeth o bwys i Swyddfa Cymru. Mae'r cynnydd yn parhau tuag at safle niwclear newydd – Wylfa Newydd ar Ynys Môn. Ymwelodd Gweinidogion â'r safle ym mis Chwefror i weld y cynnydd sy'n cael ei wneud ac i drafod y manteision y gallai hynny eu cynnig i'r gymuned leol ac i'r economi leol.

Mae ynni gwyrdd yn cynnig cyfleoedd i fusnesau Cymru, ac fe welodd Gweinidogion hyn drostynt eu hunain wrth ymweld â Pharc Eco Orthios ym mis Mawrth. Mae ein hymrwymiad yn parhau i ystyried y rôl gallai ynni'r morlyn llanw ei chwarae yng Nghymru yng nghymysgedd ynni'r Deyrnas Unedig, ac mae Swyddfa Cymru wedi manteisio ar bob cyfle i dynnu sylw at y manteision y gallai cynllun o'r fath eu cynnig. Mae nifer o brosiectau pwysig megis prosiect Storfa Bwmp Glyn Rhonwy a phrosiect cysylltiad Coedwig Brechfa hefyd wedi sicrhau caniatâd eleni.

Mae ffynonellau ynni traddodiadol megis Olew a Nwy yr un mor bwysig i Gymru ac mae Gweinidogion wedi cyfarfod â chwmnïau megis Valero ac wedi ymweld â phorthladd Aberdaugleddau i weld y cynlluniau ar gyfer datblygu'r seilwaith yma a fydd yn rhan o Fargen Dinas Abertawe.

Ym mis Ionawr, cynhaliodd Swyddfa Cymru gyfarfod o'r prif bartneriaid i ystyried y posibilrwydd o drydedd bont gydgysylltiedig dros Afon Menai. Er ei bod yn hanfodol bod unrhyw brosiect yn sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr ac nad yw'n effeithio er gwaeth ar gynnydd Wylfa Newydd neu Brosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, rydym yn awyddus i'r opsiwn hwn gael ei archwilio'n llawn.

Mae sicrhau bod pobl ledled Cymru'n gallu cael gafael ar wasanaeth ffôn symudol cryf yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Cynhaliodd Swyddfa Cymru ac Ofcom uwchgynhadledd ar 12 Ionawr i drafod sut y gellid gwella'r cysylltiadau ffôn symudol yng Nghymru. Prif nod yr uwchgynhadledd oedd trafod y gwelliannau sydd ar y gweill i gysylltedd symudol yng Nghymru yn 2017 a sut y gall gweithredwyr, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru gydweithio orau i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol sydd ynghlwm wrth sicrhau rhagor o welliannau i'r gwasanaeth yng Nghymru.

Mae Swyddfa Cymru'n ymroddedig i ledaenu rhagor ar fand eang cyflym iawn yng Nghymru. At y diben hwn, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu seilwaith newydd ac, yn gefn i hyn, fe ddarparwyd £69m o gyllid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae hyn wedi golygu bod mwy na 620,000 o gartrefi a busnesau yng Nghymru bellach yn gallu manteisio ar fand eang cyflym iawn. Erbyn diwedd 2017, disgwylir i 110,000 o eiddo ychwanegol elwa o'r buddsoddiadau hyn a fyddai'n golygu bod bron 97% o'r eiddo yng Nghymru'n gallu manteisio ar wasanaeth cyflym iawn.

### *Sicrhau bod polisi economaidd y Deyrnas Unedig yn gweithio i Gymru.*

Mae Swyddfa Cymru wedi parhau i ymgysylltu fwyfwy â rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru i sicrhau bod polisi economaidd y Deyrnas Unedig yn gweithio i Gymru. Rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau, gyda Gweinidogion ac ar lefel swyddogion dros y flwyddyn. Wrth ymgysylltu, ystyriwyd barn gwahanol randdeiliaid, o ystod o wahanol sectorau ledled Cymru gyfan. Rydym wedi bod yn sicrhau bod gwahanol Adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn deall y safbwyntiau hyn.

Cynhaliwyd rhaglen ymweliadau cynhwysfawr hefyd gan Weinidogion Swyddfa Cymru iddynt weld drostynt eu hunain sut yr oedd busnesau yng Nghymru'n gweithio'n galed i wella cynhyrchaeth, i greu swyddi ac i gefnogi twf economaidd ehangach.

Mae Swyddfa Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i sicrhau bod anghenion Cymru'n cael eu hadlewyrchu'n iawn yn Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae hyn wedi cynnwys cydweithio â'r adran wrth iddi ddatblygu polisïau a sicrhau ei bod yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ar faterion sydd o ddiddordeb i'r ddwy Lywodraeth.

Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi hwyluso ymgysylltu uniongyrchol â rhanddeiliaid yng Nghymru. Rydym wedi cynnal digwyddiadau bwrdd crwn i Weinidogion ac i

uwch swyddogion gyda busnesau yng Nghymru ac wedi cefnogi'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol wrth iddi hithau gynnal digwyddiad Strategaeth Ddiwydiannol Starburst yng Nghymru. Mae hyn wedi sicrhau bod llais Cymru a barn gwahanol randdeiliaid o amrywiaeth o wahanol sectorau o'r economi yn cael eu clywed ar draws y Llywodraeth wrth i'r polisïau hyn gael eu datblygu.

At hynny, mae Swyddfa Cymru wedi cydweithio'n agos â Thrysorlys EM a'r Adran Addysg er mwyn sicrhau bod Cymru wedi cael ei chyfran deg o'r arian o'r Ardoll Brentisiaethau.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r Uned Twf Dinasoedd ac Ardaloedd Lleol i sicrhau bod polisïau traws-Whitehall sy'n cefnogi twf economaidd lleol yn sicrhau canlyniadau i Gymru.

Llwyddwyd i sicrhau cytundeb â Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol ynglŷn â bargen ddinesig i Ranbarth Bae Abertawe a fydd yn dod â buddsoddiad gwerth £1.3bn i'r ardal. Bydd hyn yn cynnwys £115.6m gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, a bydd yn help i ariannu buddsoddiadau mewn seilwaith digidol newydd i'r rhanbarth, cymorth arloesi ac ymchwil i ddiwydiannau lleol pwysig a chymorth i ddatblygu busnesau a chynhyrchion newydd.

Mae Swyddfa Cymru wedi parhau i gefnogi Dinas Ranbarth Caerdydd wrth iddi ddatblygu'r fframwaith sicrwydd a'r cynllun gweithredu ar gyfer y fargen. Llwyddodd hyn i alluogi Dinas Ranbarth Caerdydd i gamu o'i ffurf gysgodol ar 1 Mawrth 2017, gan eu galluogi i dynnu i lawr yr haen gyntaf o gyllid a dechrau rhoi eu cynlluniau ar waith ar gyfer y rhanbarth.

Ar ôl cyhoeddi yng Nghyllideb 2016 fod y drws ar agor i fargen dwf ar gyfer y gogledd, mae Swyddfa Cymru wedi parhau i weithio gyda phartneriaid lleol wrth iddynt ddatblygu eu gweledigaeth ar gyfer y rhanbarth a'u cynigion i'r llywodraeth. Mae cynnydd da wedi'i wneud ac rydym yn edrych ymlaen at ystyried y cynigion a ddaw gerbron.

Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi sicrhau bod Gogledd Cymru'n cael ei ystyried yn rhan o Bwerdy'r Gogledd. Mae cysylltiad annatod rhwng economïau Gogledd-ddwyrain Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr, ac mae'n bwysig nad yw ffiniau gweinyddol yn llesteirio twf y rhanbarth.

## *Amcan 2 – ymadael â'r Undeb Ewropeaidd – sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli'n llawn wrth inni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.*

### *Rhoi strategaeth effeithiol ar waith i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.*

Fel rhan o ymrwymiad Prif Weinidog y Deyrnas Unedig i weithio i sicrhau bargen sydd o fudd i bob rhan o'r Deyrnas, mae gweinidogion Swyddfa Cymru wedi teithio ar hyd ac ar led Cymru i drafod effaith yr ymadawiad. Mae Gweinidogion hefyd wedi cadeirio nifer o gyfarfodydd bwrdd crwn ynglŷn ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd gyda chynrychiolwyr o amrywiaeth eang o sectorau yng

Nghymru, gan gynnwys amaethyddiaeth, byd busnes, y diwydiannau creadigol, cwmnïau fferyllol, gwyddorau bywyd ac ynni ac mae rhagor i ddod yn y misoedd nesaf. Bydd canlyniadau'r cyfarfodydd hyn i gyd yn help i gyfrannu at syniadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig wrth inni drafod ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi bod yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ac mae Swyddfa Cymru wedi bod yn rhan hanfodol o'r trafodaethau hynny. Bydd Gweinidogion Swyddfa Cymru'n mynd i gyfarfodydd Cydbwyllgor y Gweinidogion a bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn mynd i gyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet ar Fasnachu ac Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd i gynrychioli barn Cymru. Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru a'i swyddogion hefyd wedi bod yn rhan o ddwysáu'r ymgysylltu yr ymrwymodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig iddo ym mis Ionawr wrth ddynesu at danio Erthygl 50 a'r tu hwnt. Ers y refferendwm ym mis Mehefin, mae Gweinidogion o DExEU wedi ymweld â Chymru droeon a Phrif Weinidog y Deyrnas Unedig wedi ymweld â Chymru bum gwaith yn ystod yr un cyfnod. Ar bob achlysur, bu Swyddfa Cymru'n chwarae rhan bwysig yn sicrhau bod yr ymweliadau hyn yn llwyddiant.

Yn ei rôl fel llais Cymru yn San Steffan, mae Swyddfa Cymru wedi bod yn gweithio i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli mewn trafodaethau traws-Lywodraeth wrth i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Yn benodol, gan gydnabod bod Cymru yn y gorffennol wedi cael arian sylweddol o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop, mae Swyddfa Cymru'n parhau i weithio gyda chydweithwyr ar draws Whitehall i ystyried trefniadau yn y dyfodol ar ôl inni adael yr Undeb Ewropeaidd.

### *Cefnogi buddiannau diwylliannol Cymru yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig*

Dangoswyd pwysigrwydd darlledu i ddiwylliant Cymru eleni wrth gyhoeddi Siarter newydd y BBC. Bu Swyddfa Cymru'n cydweithio'n agos ag adrannau eraill i sicrhau bod anghenion Cymru'n cael eu hystyried yn llawn gan arwain at welliannau sylweddol i Wylwyr Cymru. Er enghraifft, bydd pwerau newydd i OFCOM graffu ar berfformiad, dyletswyddau a chamau clir i'w cymryd gyda golwg ar wasanaethu cynulleidfaoedd Cymru, aelod o'r bwrdd unedol i gynrychioli Cymru a chynnydd yn nifer y rhaglenni a wneir y tu allan i Lundain. Mae hyn yn gyfle gwych i'r sector annibynnol yng Nghymru

Rydym yn parhau i gefnogi'r rôl hollbwysig y mae S4C yn ei chwarae yn nhirwedd darlledu Cymru ac, ar drothwy'r adolygiad sydd ar y gweill, mae Swyddfa Cymru wedi gweithio'n galed i sicrhau arian cyfalaf ychwanegol i'r sianel ar gyfer 2017-18.

Dylai siaradwyr Cymraeg allu ymwneud â'r Llywodraeth yn eu dewis iaith lle bynnag y bydd hynny'n ymarferol ac yn rhesymol. Mae cryn gynnydd wedi'i wneud eleni, yn anad dim, cyflwyno newidiadau sy'n golygu bod yr Uwch-bwyllgor Cymreig yn gallu cynnal ei gyfarfodydd yn ddwyieithog pan fydd yn cyfarfod yn San Steffan. Rydym hefyd wedi cefnogi nifer o adrannau Whitehall i ddatblygu ac adeiladu ar eu cynlluniau iaith Gymraeg eu hunain i wella'r gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg drwy'r llywodraeth.

Er bod treftadaeth yn bwnc sydd wedi'i ddatganoli, mae gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig rôl amlwg i'w chwarae. Yn Natganiad yr Hydref 2016, ymrwymodd

y Canghellor £2 miliwn o arian LIBOR i gyfrannu at symud yr Amgueddfa Meddygaeth Filwrol i Gaerdydd.

Mae'n bwysig bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru'n cydweithio mewn meysydd allweddol megis twristiaeth, lle mae gan Gymru lawer i'w ennill o fod yn rhan o gynnig twristiaeth ehangach y Deyrnas Unedig. Mae Swyddfa Cymru wedi cyfarfod â Visit Britain, Cynghrair Twristiaeth Cymru a busnesau unigol i sicrhau ymagwedd ar y cyd at dynnu sylw at Gymru fel cyrchfan WYCH i ymwelwyr o gartref ac o dramor.

Mae Swyddfa Cymru wedi cadarnhau ei henw da y llynedd fel corff sy'n cefnogi'r lluoedd arfog. Bu'r Ysgrifennydd Gwladol yn coffáu Brwydr y Somme drwy ymweld â safle Coed Mametz lle bu miloedd o filwyr o Gymru ar gyrch 100 mlynedd yn ôl. Roedd yn bresennol ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog yn y de ym mis Mehefin i gydnabod cyfraniad y rhai fu'n gwasanaethu, yn ddynion ac yn ferched, drwy'r oesoedd hyd y dydd heddiw. Cafodd gyfarfod hefyd â'r Brigadier Richmond, Cadlywydd 160fed Frigâd y Gwŷr Traed a Phencadlys y Fyddin yng Nghymru, ym mis Ionawr i drafod y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r Fyddin yng Nghymru yn ogystal ag ategu ei ymrwymiad i'r Lluoedd Arfog.

## *Amcan 3 – Cenedl Unedig: sicrhau setliad datganoli eglurach a chynaliadwy*

### *Rhoi Deddf Cymru 2017 ar waith*

Cyflwynwyd Mesur Cymru i'r Senedd ym mis Mehefin 2016 ac fe'i llywiwyd drwy Dŷ'r Cyffredin gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol. Cwblhaodd ei gamau drwy Dŷ'r Cyffredin ym mis Medi ac fe'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi'n fuan wedyn. Yn Nhŷ'r Arglwyddi, yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth oedd y Gweinidog a oedd yn arwain ac fe gwblhaodd y Mesur ei hynt drwy Dŷ'r Arglwyddi ym mis Ionawr 2017 gyda dim ond diwygiadau gan y Llywodraeth. Roedd llawer o'r diwygiadau hyn rhai arwyddocaol ac yn ganlyniad trafodaethau parhaus rhwng Swyddfa Cymru, Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad. Dyma rai o'r diwygiadau:

- Datganoli cyflogau ac amodau gwaith athrawon;
- Datganoli'r Ardoll Seilwaith Cymunedol;
- Darpariaethau i ganiatáu cysoni'r ffin ar gyfer datganoli dŵr â ffin ddaearyddol Cymru; a
- Darpariaeth i alluogi dileu pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd ym maes dŵr ar ôl cytuno ar brotocol dŵr trawsffiniol.

Cymeradwywyd holl ddiwygiadau'r Arglwyddi gan Dŷ'r Cyffredin ac fe gafodd y Mesur gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr, gan ddod yn Ddeddf Cymru 2017. Drwy gydol hynt y Mesur, bu Swyddfa Cymru'n ymgysylltu'n rhagweithiol, drwy gyfrwng Gweinidogion a Swyddogion â Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad (fel y nodwyd uchod); ag ASau, ACau ac Arglwyddi; a chyda rhanddeiliaid eraill gan gynnwys busnesau, cyrff trydydd sector, academyddion a'r proffesiwn

cyfreithiol. Ynghyd â chytuno ar y fframwaith ariannol (gweler isod) bu hyn o gymorth i sicrhau bod y Mesur yn cael cefnogaeth y Cynulliad.

Daeth rhai o ddarpariaethau pwysig y Ddeddf i rym ar 31 Mawrth, ddau fis ar ôl Cydsyniad Brenhinol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cydnabod natur barhaol y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru;
- Cydnabyddiaeth statudol i'r confensiwn ynghylch cydsyniad deddfwriaethol;
- Y darpariaethau sy'n galluogi'r Cynulliad i newid ei enw;
- Dileu'r angen i gynnal refferendwm cyn datganoli cyfran o'r dreth incwm;
- Cynyddu terfyn benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru i £1 biliwn (yn unol â'r ymrwymiad yn y Fframwaith Ariannol)

Bydd y rhan fwyaf o ddarpariaethau Deddf Cymru'n dod i rym drwy gyfrwng rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y rheini sy'n darparu ar gyfer model pwerau cadw ym maes datganoli yng Nghymru a llawer o'r pwerau eraill a ddatganolir i'r Cynulliad ac i Weinidogion Cymru. Mae Swyddfa Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad ac Adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i benderfynu pa bryd y dylid rhoi gweddill darpariaethau Deddf Cymru ar waith, gan ddarparu drwy hynny, setliad datganoli eglurach, tecach a chryfach i Gymru.

### *Fframwaith Ariannol*

Fel y nodwyd uchod, mae Deddf Cymru 2017 yn golygu nad oes angen cynnal refferendwm cyn datganoli cyfran o'r dreth incwm yng Nghymru. Yn sgil hyn, roedd yn amlwg bod angen cytuno ar drefniadau ariannol newydd i Gymru er mwyn ystyried Cyfraddau Treth Incwm Cymru a'r trethi datganoledig a ychwanegwyd at y setliad datganoli drwy Ddeddf Cymru 2014 (treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi).

Bu Gweinidogion a swyddogion Swyddfa Cymru'n gefn i'r trafodaethau rhwng y Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys ac Ysgrifennydd Cyllid Llywodraeth Cymru a arweiniodd at gytuno ar fframwaith ariannol hanesyddol ym mis Rhagfyr 2016. Mae'r cytundeb hwn yn golygu:

- Bydd y Cynulliad yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am Gyfraddau Treth Incwm Cymru o fis Ebrill 2019 ymlaen.
- Daw'r cyllid gwaelodol a gyhoeddwyd yn Hydref 2015 ar gyfer y Senedd hon yn rhan o'r trefniadau ariannol i Lywodraeth Cymru ar gyfer y tymor hir gan sicrhau y caiff hi lefel deg o gyllid, ac ystyried capasiti treth Cymru ac y caiff newid yn y boblogaeth ei drin yn gyson ar draws meysydd trethiant a gwariant.
- Bydd capasiti benthyca Llywodraeth Cymru drwyddo draw'n cael ei ddyblu i £1bn. Cafodd hyn ei gynnwys drwy welliant gan y Llywodraeth yn Neddf Cymru 2017 a daeth i rym ar 31 Mawrth 2017 (gweler uchod).

### *Deddf Cymru 2014*

Mae cysylltiad agos rhwng y gwaith ar y cyllid gwaelodol a Deddf Cymru 2014 ac yn wir mae'n paratoi'r ffordd ar gyfer rhoi'r Ddeddf ar waith yn llwyr. Mae Swyddfa Cymru wedi cydweithio'n agos â Thrysorlys Ei Mawrhydi, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru i roi Deddf 2014 ar waith, a daeth y pwerau benthyca cyfalaf ar waith o fis Ionawr 2017 ymlaen. Cafodd y terfyn benthyca uwch y cytunwyd arno fel rhan o drafodaethau'r fframwaith ariannol ei roi ar waith ar 31 Mawrth eleni. Bydd y terfyn benthyca blynyddol yn codi o £125m i £150m o fis Ebrill 2019 ymlaen.

Mae Swyddfa Cymru hefyd yn rhan o dîm y prosiect sy'n gweithio ar roi Cyfradd Treth Incwm Cymru ar waith o fis Ebrill 2019 ymlaen.

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr ail adroddiad am y cynnydd a wnaethpwyd i roi darpariaethau ariannol Deddf 2014 ar waith. Yn ôl Deddf Cymru 2014, mae gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ill dau adrodd am y cynnydd i'r Senedd ac i'r Cynulliad.

## Cyllid a Llywodraethu

Mae cyflawni ein tri amcan polisi uchod wedi'u seilio ar chwe egwyddor effeithlonrwydd a llywodraethu corfforaethol da. Sef:-

- **darparu gwerth am arian a rheoli costau'n effeithiol**. Byddwn yn adolygu pob Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag adrannau eraill sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer Swyddfa Cymru er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu'n effeithlon ac yn ddarbodus;
- **sicrhau rheolaeth ariannol dda**, a bod trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith;
- **ymateb yn gywir ac yn brydlon** i ohebiaeth gan y cyhoedd, Cwestiynau Seneddol, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac ymholiadau yn y Senedd a'r Cynulliad
- **cynnal gweithlu medrus, llawn cymhelliant** sy'n gallu cyfrannu at y ffordd y caiff Swyddfa Cymru ei rhedeg a'i thrywydd yn y dyfodol;
- **rheoli gwybodaeth yn effeithiol**, sicrhau bod y wybodaeth a gedwir gan Swyddfa Cymru'n cael ei rheoli a'i hamddiffyn yn iawn i ddiogelu buddiannau'r Llywodraeth ac aelodau unigol o'r cyhoedd; a
- **chreu amgylchedd gweithio braf** i'r holl staff yn adeiladau Swyddfa Cymru.

Byddwn yn rhoi'r egwyddorion hyn ar waith wrth gyflawni ein prif weithgareddau corfforaethol

### *Cyllid*

O'r setliad £14.036 biliwn ar gyfer Cymru, dyrannwyd rhyw £4.7 miliwn i Swyddfa Cymru ar gyfer 2016-17. Gwariwyd hwn yn bennaf ar staff a swyddfeydd Swyddfa Cymru a chyfrifoldebau eraill Swyddfa Cymru megis talu i Arglwydd Raglawiaid Cymru. Gweddill y setliad (£14.031 biliwn) oedd y grant i Gronfa Gyfunol Cymru.

Bydd Swyddfa Cymru'n trefnu i drosglwyddo taliadau grant i Gronfa Gyfunol Cymru ond gwaith Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yw penderfynu sut yn union y caiff yr arian hwnnw ei wario ac ar beth. Mae Llywodraeth Cymru'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y ffordd y bydd yn defnyddio adnoddau ac mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n gyfrifol am archwilio'r adnoddau hynny.

### *Effeithlonrwydd*

Pennwyd cyllideb Swyddfa Cymru ar gyfer 2016-17 yn Rownd Gwariant 2015. Cynyddwyd y gyllideb 2% mewn termau real o'i chymharu â 2015-16. Mae'r cynnydd hwn yn unol â'r cynnydd a gafwyd yn y Swyddfeydd Tiriogaethol eraill.

Er mwyn helpu i wireddu amcanion a heriau'r Adran, mae'r Swyddfa'n dal i reoli ei gwaith yn effeithlon ac yn effeithiol, yn unol ag egwyddorion llywodraethu da a darparu gwerth am arian i'r trethdalwr.

Mae'r Adran yn dal i geisio rhannu gwasanaethau ac arbenigedd â'r Swyddfeydd Tiriogaethol eraill ac Adrannau eraill y Llywodraeth (gan gynnwys y Swyddfeydd Tiriogaethol eraill) lle bynnag y bo modd i ostwng costau a gwella cydnerthedd. Hyd yn hyn, sefydlwyd uned seneddol ar y cyd â'r Swyddfeydd Tiriogaethol eraill a gwasanaeth rhannu ceisiadau rhyddid gwybodaeth â Swyddfa Gogledd Iwerddon.

O ran swyddfeydd, mae gan yr Adran denantiaid (Arglwydd Raglawiaeth Llundain Fwyaf) yn y Swyddfa yn Llundain sy'n cynhyrchu incwm rhent o £51k y flwyddyn i'r Adran ac yn golygu ein bod yn defnyddio'r swyddfeydd sydd dros ben hyd yr eithaf.

A ninnau'n Adran fach, mae Swyddfa Cymru'n arddel ymagwedd gost effeithiol ac ymarferol at ddarparu ein gwasanaethau corfforaethol mewnol, gan gynnal trefniadau a chontractau fframwaith presennol y Weinyddiaeth Cyfiawnder mewn meysydd megis diogelwch, rheoli cyfleusterau, TG a gwasanaethau ariannol. Mae'r trefniadau a'r contractau hyn yn sicrhau budd sylweddol i'r Adran o ran arbedion maint ac arbenigedd. Mae gennym gytundebau lefel gwasanaeth ar waith gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer y gwasanaethau hyn.

### *Rhwymedigaethau Pensiwn*

Mae manylion am sut yr ymdrinnir â rhwymedigaethau pensiwn yng nghyfrifon Swyddfa Cymru wedi'u datgelu yn yr Adroddiad Taliadau ac yn nodyn polisi Cyfrifyddu 1.8.

### *Tryloywder*

Mae tryloywder, atebolrwydd a bod yn agored wrth galon gwerthoedd craidd Swyddfa Cymru. Rydym wedi parhau i gyhoeddi swm sylweddol o wybodaeth ar ein gwefan, gan gynnwys am y rhain:

- gwariant dros £500;
- rhoddion a roddwyd gan Weinidogion (a'r Cynghorwyr Arbenigol) ac a dderbyniwyd ganddynt

- teithiau tramor gan Weinidogion;
- lletygarwch a gafodd Gweinidogion a'r Cynghorwyr Arbennig.

Yn ystod 2016-17, ymdriniwyd 121 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (RhG) fel y'u rhestrir isod.

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Ceisiadau RhG a gafwyd O blith y rhain; | 121 |
| Nifer yr ymatebwyd iddynt o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn yr estyniad a ganiateir | 119 (98%) |
| Cais am gynnal Adolygiad Mewnol o'n Hymateb | 1 |
| Ceisydd yn cyfeirio'r ymateb at y Comisiynydd Gwybodaeth | 0 |

Crynhoir ein perfformiad Seneddol yn ystod 2016-17 isod:

| Targed | % |
|---|---|
| 100% o'r cwestiynau â dyddiad trafod a oedd mewn pryd | 98% |
| 100% o'r cwestiynau ysgrifenedig cyffredin a oedd mewn pryd | 100% |

Ein perfformiad wrth ymdrin â gohebiaeth yn ystod 2016-17 oedd:

| Targed | % |
|---|---|
| Ymdrin â 100% o'r ohebiaeth o fewn 15 niwrnod | 97% |

### *Gwaith ar Adeiladau a Gwaith Cyfalaf*

Prif swyddfa'r Adran yw Gwydyr House, ar Whitehall, tŷ tref o'r cyfnod Sioraidd yn wreiddiol. Adeilad rhestredig Gradd II* ydyw. Rydym yn cael ein cyngor a'n cymorth proffesiynol gan dîm ystadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a chan ein asiantau rheoli ein hunain, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r rheoliadau adeiladu statudol a'n bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, treftadaeth a deddfwriaeth berthnasol arall. Mae gennym raglen cynnal a chadw dreigl ar waith ar gyfer Gwydyr House sy'n cydnabod ei statws a'i ofynion arbennig, a byddwn yn ceisio darparu'n barhaus amgylchedd gweithio diogel i'n staff, i'n Gweinidogion ac i'n hymwelwyr.

At hynny, bydd yr Adran hefyd yn rhentu swyddfeydd (ar gyfer tua 44% o'i staff) yng Nghymru, a'r rheini wedi'u lleoli ym Mae Caerdydd gerllaw Cynulliad Cenedlaethol Cymru a rhanddeiliaid allweddol. Mae'r ddwy swyddfa'n cydymffurifo â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb.

### *Iechyd a Diogelwch*

Nid adroddwyd am ddim materion iechyd a diogelwch yn ystod y flwyddyn.

# Datblygu Cynaliadwy

Paratowyd yr adroddiad datblygu cynaliadwy hwn yn unol â chanllawiau Trysorlys EM yn 2016–2017 yn 'Public Sector Annual Reports: Sustainability Reporting' a gyhoeddwyd yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/591469/Sustainability_Reporting_Guidance_2016–17.pdf. Canolbwyntir ar gyflawni targedau'r llywodraeth, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a gostwng costau. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys lleihau allyriadau carbon, lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir ac anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi.

Yn Gwydyr House yn Llundain y mae Swyddfa Cymru. Bydd Swyddfa Cymru hefyd yn defnyddio rhan o Caspian Point ym Mae Caerdydd ond nid yw swyddfeydd a rennir yn cael eu cyfrif oherwydd anhawster tynnu data dibynadwy am gynaliadwyedd o'r taliadau am wasanaeth a ddarperir gan landlordiaid.

### *Llywodraethu, cyfrifoldebau a sicrwydd mewnol*

Bydd Bwrdd Adrannol Swyddfa Cymru'n monitro perfformiad amgylchedd yr Adran yn rheolaidd.

### *Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth*

Mae Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth a lansiwyd ar 1 Ebrill 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Adrannau gymryd camau i leihau'n sylweddol effaith ei gwaith ar yr amgylchedd. Gellir gweld yr ymrwymiadau hyn yma:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/585344/greening-government-commitments-overview-reporting-requirements-2016-2020.pdf

### *Ymrwymiad i Leihau Carbon*

Mae Swyddfa Cymru wedi ymrwymo i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd drwy:

a. Annog defnyddio cynadleddau fideo, yn hytrach na theithio i gyfarfodydd;

b. Defnyddio papur wedi'i ailgylchu, a

c. Defnyddio cludiant cyhoeddus yn hytrach na cheir wrth deithio i gyfarfodydd.

| Tunelli Allyriaday CO2 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 |
| Teithio ar Awyren | 21.46 | 19.8 | 0.63 | 3.56 | 5.09 |
| Teithio ar Dren | 13.73 | 8.66 | 10.07 | 10.12 | 16.06 |
| Milltiroedd mewn Ceir | 2.08 | 2.15 | 1.91 | 0.38 | 1.21 |
| Gwresogi Nwy | 17.59 | 16.35 | 10.76 | 16.77 | 18.81 |
| Trydan | 33.9 | 32.35 | 31.63 | 26.59 | 21.82 |
| Gwastraff | 0.85 | 0.83 | 0.87 | 0.32 | 0.18 |
| Cyfanswm Tunelli Co2 | 89.61 | 80.14 | 55.87 | 57.74 | 63.17 |
| Defnyddio dwr Metrau Ciwbig* | 361 | 869 | 2224 | 1972 | 6271 |

* Mae'r dŵr a ddefnyddir wedi cynyddu yn 2016-17 oherwydd bod pibell ddŵr yn gollwng ac mae'r cwmni dŵr yn ymchwilio i hyn.

Lle bydd Swyddfa Cymru'n defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder neu o dan gontract iddi, bydd ein cyfraniad at ymrwymiadau'r Llywodraeth o ran yr effaith ar yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn cael ei gyflawni o fewn y fframweithiau ehangach hynny.

# Adolygiad Ariannol

Yn 2016–17 gwariodd Swyddfa Cymru £13.5 biliwn o fewn Amcangyfrifon y Cyflenwad Seneddol (Amcangyfrif Atodol y Gwanwyn), yn bennaf ar ffurf grant i Gronfa Gyfunol Cymru.

### *Perfformiad Ariannol*

Bydd y Senedd yn dyfarnu arian drwy bleidlais i Adrannau ar ddau achlysur yn y flwyddyn drwy gyfrwng y *Prif Amcangyfrif* ar ddechrau'r flwyddyn ac *Amcangyfrif Atodol Unigol* ym mis Chwefror.

### *Symudiadau yn narpariaeth yr Amcangyfrif yn ystod 2016-17.*

Ar ddechrau'r flwyddyn, dyfarnwyd £13,860 biliwn drwy bleidlais i Swyddfa Cymru yn y Prif Amcangyfrif. Erbyn yr Amcangyfrif Atodol Unigol terfynol, roedd hyn wedi cynyddu i £174,987,000 a hynny'n bennaf oherwydd cynnydd yn y cyllid ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru.

### *Esboniad am yr amrywiadau rhwng yr Amcangyfrif a'r Alldro Adnoddau Net*

### *Swyddfa Cymru – Adnoddau*

| Gwariant o fewn Terfynau Gwariant yr Adran | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant) / Tanwariant £000 | Canran o'r amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Swyddfa Cymru | 4,513 | 4,722 | 209 | 4% |

Mae'r tanwariant o £ 209k yn erbyn y Amcangyfrif i'w briodoli yn bennaf i heb eu defnyddio cyllideb arian parod heb fod a rheolaeth ariannol ddoeth.

### *Swyddfa Cymru – Cyfalaf*

| Gwariant o fewn Terfynau Gwariant yr Adran | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant) / Tanwariant £000 | Canran o'r amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Swyddfa Cymru | 0 | 30 | 30 | 100 |

Nid oedd gan Swyddfa Cymru ddim gwariant cyfalaf yn 2016-17.

### *Grant yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru*

| Gwariant o fewn Terfynau Gwariant yr Adran | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant) / Tanwariant £000 | Canran o'r amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| | Welsh Consolidated Fund | 13,525,626 | 14,030,920 | 505,294 | 3.6 |

***Cysoni'r gwariant adnoddau net rhwng Amcangyfrifon, cyllidebau a chyfrifon***

| | 2016-17 £000 | 2015-16 £000 |
|---|---:|---:|
| **Alldro Adnoddau Net (Amcangyfrifon)** | **13,530,115** | **13,396,515** |
| Addasiadau i dynnu eitemau nad ydynt yn y gyllideb | | |
| Grantiau i Gronfa Gyfunol Cymru | (13,525,626) | (13,392,591) |
| Arall | | |
| **Cyfanswm Alldro Adnoddau'r Gyllideb** | **4,489** | **3,924** |
| O blith hyn; | | |
| Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) | 4,513 | 3,946 |
| Terfyn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)* | (24) | (22) |
| | | |
| Mae'r addasiadau'n cynnwys | | |
| Grantiau i weinyddiaethau datganoledig – Cymru | 13,525,626 | 13,392,591 |
| Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol yn yr OCS | | |
| **Cost Gweithredu Net (Cyfrifon)** | **13,530,115** | **13,396,515** |

* Mae'r AME yn berthnasol i ddefnyddio darpariaeth ymddeol yn gynnar Gweler Nodyn 11.

**Glynne Jones**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**6 Gorffenaf 2017**

# 2 Yr Adroddiad Atebolrwydd

## Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Gweinidogion Swyddfa Cymru, Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion

Dangosir Gweinidogion, Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion Swyddfa Cymru yn ystod 2016-17 yn y tabl isod:-

| Gweinidogion Swyddfa Cymru/ Cyfarwyddwyr/ac Uwch Swyddogion |
|---|
| **Y Gwir Anrh Alun Cairns AS** – Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| **Guto Bebb AS** – Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru |
| **Yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth** – Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru |
| **Isobel Garner** – Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol Cenedlaethol |
| **Tom Jones** – Aelod o'r Bwrdd Gweithredol Cenedlaethol |
| **Glynne Jones** – Cyfarwyddwr |
| **Geth Williams** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Allan Ross** – Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu |
| **Robin Healey** – Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi |
| **Sarah Stoney** – Dirprwy Gyfarwyddwr*, Cyfreithiol o 24 Hydref 2016 |
| **Michael Dynan-Oakley** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat o 22 Chwefror 2017 |
| **Kate Davies** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat hyd at 31 Awst 2016 |

* Swydd newydd yw swydd y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyfreithiol a grëwyd yn y flwyddyn ariannol hon.

Roedd gan Swyddfa Cymru ddwy swydd i aelodau anweithredol o'r bwrdd – Isobel Garner (prif aelod anweithredol) a Tom Jones (aelod anweithredol). Rhoddir manylion holl bwyllgorau Swyddfa Cymru a'u haelodau yn y "Datganiad Llywodraethu" (tudalen 22).

### *Diogelwch a diogelwch gwybodaeth*

Ni fydd Swyddfa Cymru'n ymdrin â swmp mawr o ddata sensitif neu bersonol. Serch hynny, mae wedi ymrwymo i sicrhau bod y wybodaeth y mae'n ei chadw'n cael ei thrin a'i gwarchod yn gywir a'n bod yn cydymffurfio â'r safonau priodol.

Bydd asedau a risgiau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth yn cael eu nodi ac mae rheolaethau ar waith i reoli sut y bydd gwybodaeth yn cael ei defnyddio. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Byddwn yn darparu pecyn hyfforddi drwy gyfrwng Dysgu'r Gwasanaeth Sifil (CSL) i hyfforddi ein holl staff bob blwyddyn ynghylch materion sy'n ymwneud â sicrhau diogelwch gwybodaeth a thrin data.

Cofnodwyd un digwyddiad diogelwch yn ystod 2016–17. Collwyd tocyn amgryptio gliniadur, ond ni chollwyd dim data yn sgil hyn. Ymchwiliwyd yn llawn i'r digwyddiad a chymerwyd camau priodol.

## Datganiad am Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Swyddfa Cymru i baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gyfrifon adnoddau sy'n manylu ar yr adnoddau a gaffaelwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a sut y defnyddiwyd yr adnoddau hynny gan yr Adran yn ystod y flwyddyn. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi golwg gwir a theg ar gyflwr materion Swyddfa Cymru a'i halldro adnoddau net, defnyddio adnoddau, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, bydd gofyn i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion y *Government Financial Reporting Manual* ac yn benodol:

- Dilyn y Cyfarwyddyd ynghylch Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a rhoi polisiau cyfrifyddu addas ar waith ar sail gyson;
- Llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol yn unol â'r Government Financial Reporting Manual, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o sylwedd yn y cyfrifon; a
- Pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes byw.

Mae Trysorlys EM wedi penodi Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru yn Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Cymru.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb am gywirdeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Swyddfa Cymru, wedi'u rhestru yn *Managing Public Money* a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

## Datganiad datgelu gwybodaeth archwilio berthnasol

Mae Cyfrifon Swyddfa Cymru wedi'u paratoi ar sail statudol yn unol â gofynion Trysorlys EM ac maent wedi'u llunio i gydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau Cyfrifon cyffredinol a roddwyd i'r adrannau gan Drysorlys EM o dan adran 5(2) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Caiff y datganiadau ariannol eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a gaiff ei benodi o dan statud ac sy'n atebol i'r Senedd yng nghyswllt y gwaith archwilio. Caiff taliadau a threuliau'r Archwilwyr eu datgelu yn Nodyn 3 i'r cyfrifon. Yn ystod y flwyddyn adrodd ni wnaed unrhyw daliadau i'r archwilwyr am waith nad oedd yn ymwneud ag archwilio (2015-16: £sero).

Rwyf yn cadarnhau drwy hyn nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, hyd y gwn i, nad yw archwilwyr Swyddfa Cymru yn ymwybodol ohoni ac fy mod wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Swyddfa'r Swyddfa yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Rwyf yn cadarnhau drwy hyn fod yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol yn gyfan ac yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, ac fy mod yn derbyn cyfrifoldeb personol dros yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol a'r penderfyniadau sy'n ofynnol ar gyfer pennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

# Datganiad Llywodraethu

Mae'r Datganiad hwn yn egluro ar ba sail y sefydlwyd Swyddfa Cymru, sut mae'n cael ei llywodraethu a'i rheoli; a sut mae'n atebol am ei gwaith. Bwriedir iddo gynnig datganiad cynhwysfawr wedi'i deilwra sy'n dweud ar ba sail y gall y Swyddfa Cyfrifyddu roi sicrwydd bod y Swyddfa'n Gweithredu'n briodol ac yn stiwardio cronfeydd cyhoeddus.

### *Statws a rôl Swyddfa Cymru*

Sefydlwyd Swyddfa Cymru ar yr un pryd ag y sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999. Ei phrif bwrpas yw cynorthwyo Ysgrifennydd Gwladol Cymru i hyrwyddo buddiannau gorau Cymru yn y Deyrnas Unedig a sicrhau bod y setliad datganoli yng Nghymru'n gweithio'n ddidrafferth. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod arian sydd wedi'i ddyfarnu i Gronfa Gyfunol Cymru gan y Senedd (Grant Bloc Cymru) yn cael ei dalu'n brydlon. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, ac yn yr un modd â'r holl Adrannau Gwladol eraill, bydd Swyddfa Cymru'n gyfrifol am wneud trefniadau cadarn ar gyfer llywodraethu a rheoli risg.

Dynodwyd ei Chyfarwyddwr yn Swyddog Cyfrifyddu.

### *Diben y fframwaith llywodraethu*

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, y mae Swyddfa Cymru'n cael ei chyfarwyddo a'i rheoli drwyddynt a'r modd y mae'n atebol i'r Senedd. Mae'n cynnwys y broses a ddefnyddir gan Weinidogion ac uwch reolwyr i fonitro'r gwaith o gyflawni ei hamcanion a barnu a yw gweithgareddau'r Swyddfa wedi arwain at ganlyniadau priodol a chost effeithiol. Mae'r fframwaith yn ymgorffori system gadarn i ganfod a rheoli risgiau.

### *Y fframwaith llywodraethu*

Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n sy'n gosod cyfeiriad gwleidyddol Swyddfa Cymru ac mae'n atebol i'r Senedd. Mae'n cael ei gynorthwyo gan ddau Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gymru; un yn Nhŷ'r Cyffredin ac un yn Nhŷ'r Arglwyddi, a chan dîm bach o weision sifil o dan arweiniad Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru.

### *Bwrdd Adrannol Swyddfa Cymru*

Sefydlwyd Bwrdd Adrannol Swyddfa Cymru ym mis Medi 2015 a bydd yn cyfarfod hyd at chwe gwaith mewn blwyddyn ariannol. Yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn cadeirio'r Bwrdd neu Gyfarwyddwr Swyddfa Cymru os nad yw'r Gweinidogion yn bresennol. Cytunwyd y dylai Gweinidogion fod yn bresennol mewn dau gyfarfod o leiaf yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd Adrannol yn gyfrifol am bennu trywydd strategol yr Adran (ei nodau a'i hamcanion) ar sail polisïau y bydd Gweinidogion yn penderfynu yn eu cylch, cytuno ar y cynllun busnes a sicrhau bod gan y swyddfa'r gallu a'r capasiti i wireddu'r cynllun busnes er mwyn diwallu anghenion y presennol a'r dyfodol.

Bydd y Bwrdd yn cynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflawni ei gyfrifoldebau i'r Senedd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys tîm y Gweinidogion, dau aelod anweithredol a Chyfarwyddwr, a Dirprwy Gyfarwyddwyr yr Adran. Bydd y Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn mynd i holl gyfarfodydd y Bwrdd er mwyn cynnig cyngor am fateiron ariannol a llywodraethu.

Cynhaliwyd cyfarfodydd y Bwrdd Adrannol ym mis Mai 2016, mis Mehefin 2016, mis Medi 2016 as mis Mawrth 2017. Cadeiriwyd cyfarfodydd Mehefin, Rhagfyr a Mawrth gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r cyfarfodydd eraill gan Gyfarwyddwr Swyddfa Cymru.

Yn 2016-17, bu'r Bwrdd Adrannol yn adolygu ac yn cytuno ar ddiweddariadau i Gynllun Busnes a Chofrestr Risg Strategol yr Adran gan fonitro'r cynnydd. Mae'r Cynllun Busnes a'r Gofrestr Risg a ddiweddarwyd yn parhau i ddangos blaenoriaethau, amcanion a phrif weithgareddau'r Adran.

Cynhaliwyd adolygiad o weithdrefnau llywodraethu'r Adran gan aelod arweiniol anweithredol y bwrdd yn ei rôl fel dirprwy gadeirydd y Bwrdd Strategaeth yng mis Mawrth 2017. Canlyniad ei hadolygiad oedd ei bod yn fodlon bod trefniadau Llywodraethu Corfforaethol Swyddfa Cymru yn gyson â Chod Llywodraethu Corfforaethol Trysorlys EM a'u bod yn briodol, ac ystyried maint a natur yr Adran. Cyflwynwyd ambell argymhelliad a fyddai'n cryfhau'r trefniadau eto. Ymhlith yr argymhellion hyn, roedd datblygu Fframwaith Gweithredu ar gyfer y Bwrdd sy'n manylu ynghylch sut mae'r Bwrdd yn gweithio a bod angen gwahaniaethu'n fwy clir rhwng yr eitemau a drafodir ac y cytunir arnynt yng nghyfarfodydd Arweinyddion yr uwch Dîm a'r Bwrdd. Drwy ddatblygu rhaglen waith a Fframwaith Gweithredu ar gyfer y bwrdd, daw'r gwahaniaeth hwn yn fwy amlwg.

Byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn cynnal cyfarfodydd dwyochrog yn gyson â'r Cyfarwyddwr i drafod polisïau, strategaeth a materion Adrannol. Byddai'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn cadeirio cyfarfodydd wythnosol â thîm llawn y Gweinidogion a'r uwch reolwyr a oedd yn cydlynu ac yn trafod busnes Adrannol a Gweinidogol arfaethedig.

Dyma ffigurau presenoldeb Bwrdd Swyddfa Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol:

## Bwrdd Swyddfa Cymru

| Aelodau | Nifer y Cyfarfodydd a Fynychwyd |
|---|---|
| **Y Gwir Anrh Alun Cairns AS** Cadeirydd<br>Ysgrifennydd Gwladol Cymru | 3 o blith 5 |
| **Guto Bebb AS**<br>Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru | 3 o blith 5 |
| **Yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth**<br>Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru | 2 o blith 5 |
| **Isobel Garner** – Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol Cenedlaethol | 4 o blith 5 |
| **Tom Jones**– Aelod o'r Bwrdd Gweithredol Cenedlaethol | 5 o blith 5 |
| **Glynne Jones** – Cyfarwyddwr | 5 o blith 5 |
| **Geth Williams** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol | 5 o blith 5 |
| **Allan Ross** – Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu | 5 o blith 5 |
| **Robin Healey** – Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi | 5 o blith 5 |
| **Sarah Stoney** – Dirprwy Gyfarwyddwr*, Cyfreithiol o 24 Hydref 2016 | 2 o blith 5 |
| **Michael Dynan-Oakley** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat o 20 Chwefror 2017 | 1 o blith 5 |
| **Kate Davies** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat hyd at 31 Awst 2016 | 2 o blith 5 |

* Y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyfreithiol yn swydd newydd a grëwyd yn y flwyddyn ariannol hon ac yn mynychu pob Cyfarfod Bwrdd mewn rôl ymgynghorol yn unig.

### *Adroddiadau'r Pwyllgor i Fwrdd Adrannol Swyddfa Cymru*

**Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC):-** Cadeirydd ARAC yw'r aelod arweiniol o'r bwrdd gweithredol cenedlaethol, ac mae'n cynnwys un aelod arall o'r bwrdd ac aelod annibynnol arall. Penodwyd aelod annibynnol newydd i'r pwyllgor ar 1 Ionawr 2017 gan ddisodli'r aelod annibynnol blaenorol a roddodd y gorau i'r rôl ar 31 Rhagfyr 2016. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu'n unol â Llawlyfr Pwyllgor Archwilio'r Trysorlys ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Aeth y Pwyllgor ati i werthuso'i effeithiolrwydd ei hun yn llawn ym mis Chwefror 2017 gan ofyn am farn archwilwyr mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Casgliad y Pwyllgor oedd ei fod yn gweithredu'n effeithiol.

Dyma rai o'r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:

- cofrestrau risg yr Adran a'i phrosesau llywodraethu;
- yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon;
- Cyfrifon y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol; ac
- Adroddiadau Archwiliadau Mewnol ac Allanol

Dyma ffigurau presenoldeb Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Swyddfa Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol:

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

| Aelodau | Nifer y Cyfarfodydd a Fynychwyd |
|---|---|
| **Isobel Garner** – Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol Cenedlaethol, Cadeirydd | 4 o blith 4 |
| **Tom Jones** – Aelod o'r Bwrdd Gweithredol Cenedlaethol | 4 o blith 4 |
| **Chris Southworth**[1] – Aelod Annibynnol | 3 o blith 4 |
| **Sam Hartley**[2] – Aelod Annibynnol | 1 o blith 4 |

Nodyn 1: Mae Chris Southworth yn Ddirprwy Gyfarwyddwr, Grŵp yr Economi o Swyddfa Gogledd Iwerddon. Ymddiswyddodd o'r Pwyllgor ar 31 Rhagfyr 2016.

Nodyn 2: Sam Hartley yw Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau ar gyfer Lloegr. Fe'i penodwyd i'r Pwyllgor ar 1 Ionawr 2017.

## Pwyllgorau Eraill

Mae gan Swyddfa Cymru Bwyllgor Iechyd a Diogelwch hefyd a'i gylch gwaith yw:

- cynghori'r Bwrdd i sicrhau bod Swyddfa Cymru'n darparu amgylchedd iach a diogel yn y gwaith i'w staff, i'w Gweinidogion ac i'w hymwelwyr;
- rheoli risgiau Iechyd a Diogelwch a monitro'r cynnydd o'i gymharu â'r Cynllun Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol, Corfforaethol; a
- gwella perfformiad a safonau Iechyd a Diogelwch eto, ac ymdrechu i ragori ar bob safon statudol, cod ymarfer, rheoliadau a gofynion cyfreithiol perthnasol.

Cyfarfu'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, dan gadeiryddiaeth Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol, unwaith yn ystod 2016–17. Ystyriwyd ystod o faterion, gan gynnwys ystadegau am ddamweiniau yn y gwaith a hyfforddiant staff fel wardeniaid tân a phobl cymorth cyntaf.

## Swyddogaeth y Swyddog Cyfrifyddu

Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru yw ei Swyddog Cyfrifyddu. Yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd iddo yn ei lythyr penodi, ac fel y nodwyd yn Managing Public Money, mae'n gyfrifol am lywodraethu Swyddfa Cymru.

Disgwylir i'r Swyddog Cyfrifyddu ymgymryd â chyfrifoldeb personol am y canlynol:-

- rheoleidd-dra a phriodoldeb, gan gynnwys gofyn am gymeradwyaeth Trysorlys EM am unrhyw wariant y tu allan i ddirprwyaethau arferol;
- fforddiadwyedd a chynaliadwyedd, parchu cyllidebau y cytunwyd arnynt ac osgoi ymrwymiadau tymor hir anfforddiadwy;
- asesiadau gwerth am arian;
- bod yn atebol i'r Senedd drwy'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC).
- Disgwylir i'r Swyddog Cyfrifyddu sicrhau bod yr Adran yn gweithredu'n effeithiol, yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol ac yn arddangos safon uchel o uniondeb. Nod Swyddfa Cymru yw:

## Llywodraethu

- bod â strwythur llywodraethu sy'n cyfleu, yn dirprwyo, yn gweithredu ac yn gorfodi penderfyniadau;
- bod â mesurau rheoli mewnol dibynadwy i ddiogelu, sianelu a chofnodi'r defnydd gorau o adnoddau yn ôl y bwriad;
- gweithredu'n briodol gan roi sylw i'r angen am gynnal busnes cyhoeddus yn briodol;
- trin ei chyflenwyr a'i chymheiriaid busnes yn deg ac yn onest;
- darparu cofnodion amserol, tryloyw a realistig am ei busnes.

## Penderfynu

- cynorthwyo ei Gweinidogion drwy roi cymorth clir, sy'n seiliedig ar resymau da, yn amserol ac yn ddiduedd;
- gwneud ei holl benderfyniadau'n unol â strategaeth, nodau ac amcanion y sefydliad fel yr amlinellwyd gan Weinidogion a/neu mewn deddfwriaeth;
- cwrdd â gofynion y Trysorlys ynghylch terfynau ar ddefnydd o adnoddau cyhoeddus;
- rheoli ei staff yn deg, gyda pholisïau cynhwysol sydd â'r nod o hybu ac integreiddio amrywiaeth;
- cyfleu ei phenderfyniadau mewn ffordd agored a thryloyw.

## Rheoli ariannol

- sicrhau bod trafodion ariannol yn rheolaidd a phriodol;
- defnyddio ei hadnoddau'n effeithlon, yn ddarbodus ac effeithiol, gan osgoi gwastraff ac afradlondeb;
- arfarnu caffael a phrosiectau mewn ffordd wrthrychol a theg, gan ymdrechu i sicrhau gwerth da i'r sector cyhoeddus cyfan;
- defnyddio systemau gwybodaeth reoli i gael sicrwydd ynghylch gwerth am arian ac ansawdd y cyflenwad er mwyn gwneud addasiadau amserol;
- osgoi gorfanylu a gorfodi costau cydymffurfio'n ddiangen ar ei staff ei hun neu ei gwsmeriaid a rhanddeiliaid;
- bod a threfniadau ysgrifenedig ymarferol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill;
- defnyddio gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol i wella ei rheolaeth ariannol, ei mesurau rheoli mewnol a'i pherfformiad.

## Gwneud penderfyniadau a rheoli'r busnes

Mae Swyddfa Cymru wedi'i ei rhannu'n bedair er mwyn cyflawni ei swyddogaethau:

1. Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol

2. Y Swyddfa Breifat

3 Y Wasg a Chyfathrebu

4. Polisi

Yn ben ar bob un o'r rhain, mae uwch aelod o staff sy'n adrodd i'r Cyfarwyddwr. Dirprwywyd cyllidebau ffurfiol gan y Cyfarwyddwr i bob Dirprwy Gyfarwyddwr yn eu rolau fel penaethiaid isadrannau.

Cafodd y cyllidebau is-adrannol eu monitro gan yr uwch dîm ac adolygwyd a thrafodwyd adroddiadau ariannol ym mhob un o gyfarfodydd Bwrdd Adrannol Swyddfa Cymru a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Cyfarfu'r uwch dîm rheoli'n rheolaidd i oruchwylio a chydlynu gwaith beunyddiol, materion rheoli a materion cyllidebol.

Mae gan yr Adran Gytundebau Lefel Gwasanaeth â'r Gweinidog Cyfiawnder ar gyfer y rhan fwyaf o'u hanghenion caffael ac am ystod eang o wasanaethau staffio, llety ac ariannol. O bryd i'w gilydd, ond nid yn aml, bydd yn gwneud mân waith caffael untro ei hun, a hynny o dan reolau caffael y Llywodraeth.

Bydd Swyddfa Cymru'n cael ei gwasanaethau cyfreithiol gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth. Cyflogir tîm Cynghorwyr Cyfreithiol Swyddfa Cymru gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth ac maent wedi'u cydleoli â staff Swyddfa Cymru yn Ty

Gwydyr a Caspiant Point. Sefydlwyd swydd Dirprwy Gyfarwyddwr y Cynghorwyr Cyfreithiol yn Adran Gyfreithiol y Llywodraeth ar 24 Hydref 2016 ac mae'n aelod o Fwrdd Adrannol Swyddfa Cymru a Thîm Uwch Arweinwyr Swyddfa Cymru.

## Archwilio Mewnol

Roedd yr adolygiadau Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys sicrhau gwybodaeth/diogelwch seibr, rheolaethau/systemau ariannol, cydnerthedd ac archwiliad dilynol o lywodraethu corfforaethol.

Wrth gynnal Archwiliadau Mewnol, gwelwyd bod lefel dda o reolaeth ac ni welwyd dim problemau rheoli sylweddol yn ystod yr adolygiadau. Gellid cynnig lefel gymedrol o sicrwydd bod fframwaith risg, rheoli a llywodraethu cyffredinol yr Adran yn ddigonol iddi gyflawni ei hamcanion a bod y prif risgiau i'r Adran yn cael eu rheoli'n effeithiol.

## Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Rhoddodd Swyddfa Cymru ystyriaeth lawn i ganllawiau Trysorlys EM ar Lywodraethu Corfforaethol yn Adrannau'r Llywodraeth Ganolog (Gorffennaf 2011) wrth addasu a chryfhau ei phrosesau i adlewyrchu ei statws fel Adran annibynnol. Roedd hyn, serch hynny, wedi'i wneud yn unol â'i maint, ei chyllideb a'i swyddogaeth (i ddarparu cymorth a chyngor am bolisïau i Weinidogion Swyddfa Cymru yn hytrach na chyflenwi rhaglenni neu wasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd). Yr unig feysydd lle nad yw'r Adran yn llwyr gydymffurfio â'r canllawiau yw:

- Nifer Aelodau Anweithredol y Bwrdd. Ar ôl ystyriaeth ddyladwy gan y Cyfarwyddwr, y Pwyllgor Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ac yn dilyn trafodaethau ag Archwilwyr Mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, penderfynodd yr Adran beidio â chynyddu nifer yr Aelodau Anweithredol. Y farn oedd bod yr aelodaeth bresennol gymesur â maint yr Adran (tua 44 o staff). Roedd y ddau Aelod Anweithredol o'r Bwrdd yn 2016-17 yn cynnig sgiliau a phrofiad eithriadol o werthfawr sy'n arbennig o berthnasol i Swyddfa Cymru. Mae gan yr Aelod Anweithredol Arweiniol yrfa bortffolio o wella gwasanaethau cyhoeddus ac ar hyn o bryd mae'n gadeirydd ar Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Cyn dechrau ar ei gyrfa anweithredol, roedd yn Brif Weithredwr yn un o Gynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru. Ffarmwr o Gymru yw'r ail Aelod Anweithredol ac mae ar hyn o bryd yn cynrychioli'r Deyrnas Unedig ar Bwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop. Mae hefyd yn Is-Lywydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.
- Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnwys o leiaf dri aelod, bu swyddog o Swyddfa Gogledd Iwerddon yn gwasanaethu fel aelod annibynnol o'r pwyllgor rhwng mis Mawrth 2014 a mis Rhagfyr 2016 pan roddodd y gorau iddi. Ym mis Ionawr 2017, penodwyd Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau ar gyfer Lloegr yn Aelod annibynnol. Bu'r penodiad hwn yn fodd o gryfhau annibyniaeth y pwyllgor eto.
- Nid yw Aelodaeth Bwrdd Swyddfa Cymru yn cynnwys neb sydd â chymwysterau ariannol. Oherwydd ei maint, mae gan Swyddfa Cymru un gweithiwr proffesiynol â chymwysterau ariannol sy'n mynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd er mwyn cynnig cyngor.

## Canfod a rheoli risg

Diben system rheolaeth fewnol Swyddfa Cymru yw canfod risgiau i'r busnes a'u rheoli ar lefel resymol. Mae'n seiliedig ar broses barhaus sydd â'r nod o ganfod a blaenoriaethu risgiau er mwyn cyflawni amcanion Swyddfa Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'u heffaith bosibl, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus

Mae cadernid y system hon yn dal i gael dangos yn y ffordd y mae'r Adran yn rheoli ei risgiau strategol allweddol. Yn 2016-2017, un o'r risgiau hyn oedd y byddai Cynulliad Cymru'n gwrthod cydsynio i Fesur Cymru. Mae'r Adran wedi rheoli'r risg hon drwy sicrhau bod swyddogion Swyddfa Cymru'n ymgysylltu'n frwd â swyddogion Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad. Bu Swyddfa Cymru hefyd yn sicrhau bod Adrannau Whitehall yn ymgysylltu'n llawn â gwaith parhaus i addasu Mesur Cymru, yn rhannol er mwyn ymateb i ymrwymiadau'r llywodraeth yn ystod hynt y Bil drwy'r senedd ac yn rhannol mewn ymateb i Lywodraeth Cymru a Swyddfa Llywydd y Cynulliad. Pasiodd y Cynulliad Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Mesur Cymru ym mis Ionawr 2017 a chafodd y Mesur Gydsyniad Brenhinol yn ddiweddarach y mis hwnnw.

Y brif risg weithredol a nodwyd oedd na fyddai Swyddfa Cymru'n gallu darparu digon o adnoddau i wireddu ymrwymiadau'r Llywodraeth newydd i Gymru. Bydd yr Adran yn lliniaru'r risg hon drwy hyfforddi a chynllunio olyniaeth y staff presennol a recriwtio staff newydd sy'n meddu ar y wybodaeth, y profiad a'r sgiliau iawn i ymafael yn eu tasgau ar unwaith. O ganlyniad, mae'r Adran wedi llwyddo i lenwi swyddi gwag allweddol o'i gymharu â'r sefyllfa mewn blynyddoedd blaenorol.

## Capasiti i ymdrin â risg

Cafodd risgiau eu canfod a'u cyfleu ar lefel strategol ac ar lefel weithredol gan y Pwyllgor Rheoli ac ar lefel weithio gan y timau yn y pum is-adran. Roedd cofrestrau risg y canghennau'n ategu ac yn cyfrannu at y Gofrestr Risg Adrannol gyffredinol a oedd yn cael ei hadolygu ym mhob un o gyfarfodydd Bwrdd Adrannol Swyddfa Cymru. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) yn craffu ar y modd yr ymdriniwyd â'r prif risgiau yn ei gyfarfodydd chwarterol ac roedd yn edrych yn fwy manwl ar risgiau penodol a'r ffordd yr oeddent yn cael eu rheoli. Mae gan yr Adran hefyd Ddatganiad Archwaeth Risg y craffwyd arno gan yr ARAC.

## Fframwaith risg a rheoli risg

Roedd gan Swyddfa Cymru Strategaeth a Fframwaith Polisi ar gyfer Rheoli Risg, a oedd wedi'i chymeradwyo gan Fwrdd Swyddfa Cymru, ac a oedd yn seiliedig ar gyngor y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Y prif elfennau oedd:

- proses ffurfiol i ganfod, gwerthuso, rheoli a rhoi gwybod am risgiau;
- system ddadansoddi a chofnodi ar gyfer y risgiau i amcanion, effaith a thebygolrwydd risgiau, camau lliniaru cyfredol ac arfaethedig a pherchnogion risgiau unigol;

- rhaglen ffurfiol sy'n cynnwys gweithdrefnau ar gyfer rheoli risg;
- gweithdai i godi ymwybyddiaeth o reoli risg.

Cafodd effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg eu hategu gan waith yr archwilwyr mewnol, yr uwch reolwyr a oedd yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r argymhellion a wnaethpwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Roedd yr holl gamau rheoli allweddol, a bennwyd ar ôl asesu'r prif risgiau busnes a'r meysydd ariannol allweddol canlynol wedi eu rhoi ar waith. Yn benodol roedd y rhain yn cynnig cryn sicrwydd:

- bod gwariant/incwm yn cael ei gofnodi a'i wario a'i dderbyn yn briodol o safbwynt priodoldeb a rheoleidd-dra;
- bod y gwariant/incwm a oedd wedi'i wario a'i dderbyn yn cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau, gan gynnwys y rhai sy'n gosod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithgareddau Swyddfa Cymru;
- bod gwariant wedi'i gategoreiddio'n briodol a bod gwariant wedi'i drosglwyddo rhwng dosbarthiadau gwariant yn unol â'r Llawlyfr Cyllid;
- nad oedd y rheolau ynglŷn â dirprwyo awdurdod ariannol wedi'u torri;
- bod cyllidebau wedi'u monitro'n rheolaidd, bod gwariant gwirioneddol wedi'i gymharu â rhagolygon, a bod y Pwyllgor Rheoli wedi'i hysbysu am unrhyw amrywiannau;
- bod mesurau rheoli ar waith i sicrhau bod asedau Swyddfa Cymru wedi'u diogelu rhag eu defnyddio neu eu gwaredu heb awdurdod;
- bod gweithdrefnau rheoli ar waith i atal twyll;
- bod asedau gwybodaeth wedi'u monitro a bod risgiau wedi'u hasesu a'u cofnodi'n briodol a bod ansawdd wedi'i adolygu (gweler yr adran ar sicrhau gwybodaeth isod);
- bod gweithdrefnau rheoli ar waith ar gyfer yr Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol am Wybodaeth i ddiogelu rhag bygythiadau i ddiogelwch gwybodaeth;
- nad oedd y polisi ar letygarwch a rhoddion wedi'i dorri.

### *Diogelwch a diogelwch gwybodaeth*

Trafodir hyn yn yr Adroddiad am Berfformiad. Gweler tudalen 19.

## Risg a Sicrhau Risg ym maes Gwybodaeth

### *Asedau Gwybodaeth*

Nid yw Swyddfa Cymru'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd ac nid yw'n cadw cronfeydd data mawr o ddata personol. Mae ychydig o ddata personol yn cael ei ddal ar ffurf cofnodion personol a chyllid, a gohebiaeth gan y cyhoedd ac Aelodau Seneddol (ASau), Aelodau Cynulliad (ACau) ac Arglwyddi. Mae gwybodaeth arall a gedwir gan yr Adran yn cynnwys papurau corfforaethol a pholisi, a phapurau Pwyllgorau Cabinet.

### *Risgiau a Rheoli Risgiau*

Mae Swyddfa Cymru wedi nodi'r risgiau canlynol ym maes gwybodaeth:

1. colli gwybodaeth, yn enwedig pan fydd staff yn teithio;

2. peryglu gwybodaeth drwy fynediad heb ei awdurdodi;

3. colli neu lygru gwybodaeth oherwydd bod systemau technegol wedi methu;

4. colli gwybodaeth o ganlyniad i ladrad.

Gan mai ond ychydig o ddata sensitif sy'n cael ei ddal gan Swyddfa Cymru, nid yw graddfa'r risg mor fawr nes bod angen strategaethau rheoli arbennig neu gynhwysfawr.

### *Rheoli risgiau*

Risg 1: Colli gwybodaeth, yn enwedig pan fydd staff yn teithio

- mae'r staff wedi cael canllawiau ynghylch trafod gwybodaeth sy'n benodol i'r Adran, ac sy'n rhestru eu cyfrifoldebau. Bydd staff yn cael eu hatgoffa o bryd i'w gilydd am y rheolau i ddiogelu gwybodaeth pan fyddant yn teithio;
- mae gan yr Adran bolisi desg glir ar gyfer ein dwy swyddfa sy'n ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei storio'n briodol;
- mae'r staff wedi'u hysbysu am weithdrefnau i roi gwybod am unrhyw achos lle bydd gwybodaeth sensitif ac eitemau fel ffonau clyfar yn mynd ar goll.

Risg 2: Peryglu gwybodaeth drwy fynediad heb ei awdurdodi

- mae system rheoli mynediad ar waith ar gyfer rheoli cofnodion sy'n cyfyngu ar y ffeiliau y gall defnyddwyr eu gweld. Bydd hawliau mynediad yn cael eu hadolygu'n rheolaidd;
- mae ffeiliau adnoddau dynol yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo mewn ystafell y gellir ei chloi.

Risg 3: Colli neu lygru gwybodaeth oherwydd bod systemau technegol yn methu

Rydym wedi cael sicrwydd gan gyflenwyr TG y Weinyddiaeth Cyfiawnder, o dan gytundeb lefel gwasanaeth, bod gwybodaeth yn ddiogel, bod copïau wrth gefn o ddata'n cael eu gwneud yn rheolaidd a bod modd eu defnyddio i adfer data os bydd angen; a bod ffeiliau a data sy'n hen ac wedi darfod yn cael eu dinistrio'n ddiogel.

Risg 4: Colli gwybodaeth o ganlyniad i ladrad

- mae'n ofynnol bod staff yn cadw pob dogfen gyfrinachol mewn cypyrddau dan glo. Bydd gwiriad yn cael ei gynnal bob dydd i sicrhau bod pob cwpwrdd wedi'i gloi;
- diben y polisi desg glir yw atal dogfennau rhag cael eu gadael heb eu diogelu, ac mae nifer o hapwiriadau wedi dangos bod y polisi'n cael ei ddilyn.

Ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod 2016–17.

## Adroddiad cryno gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Ar sail ei waith yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017, gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gynnig lefel uchel o sicrwydd ynglŷn â pha mor ddigonol yw'r trefniadau archwilio mewnol ac allanol ar gyfer Swyddfa Cymru, y trefniadau rheoli ariannol sydd ar waith, a'r sicrwydd a roddwyd i'r Swyddog Cyfrifyddu o ran y trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli sydd ar waith yn yr Adran.

## Asesiad o'r system rheolaeth fewnol

Ar sail yr adolygiad hwn, gallaf roi sicrwydd bod y system reolaeth fewnol yn Swyddfa Cymru yn ddigonol i gyflawni amcanion Swyddfa Cymru. Rhoddir y sicrwydd hwn ar y sail bod camau wedi'u cymryd i leihau neu ddileu'r risg, lle y nodwyd bod Swyddfa Cymru yn agored i risg, neu fod natur y risg wedi'i deall yn llawn a'i derbyn.

# Adroddiad am Daliadau a Staff

## Adroddiad Taliadau

Yn unol â gofynion Atodlen 7A i Ddeddf Cwmnïau 1985 (fel y'i diwygiwyd) dim ond rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd wedi cael eu harchwilio'n allanol yn llawn. Mae'r rhain yn cynnwys yr adrannau am gyflogau a hawliau pensiwn.

Mae'r adrannau canlynol i gyd yn ddarostyngedig i archwiliadau: tâl gweinidogion, tâl aelodau o Fyrddau, cymarebau tâl, ffioedd a delir i Aelodau Anweithredol o Fyrddau, buddiannau pensiwn gweinidogion, buddiannau pensiwn aelodau o Fyrddau, iawndal am golli swydd, costau staff, adrodd am gynlluniau Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill, nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi ar gyfartaledd.

### Polisi Taliadau

Pennir taliadau i uwch weision sifil gan Brif Weinidog y Deyrnas Unedig ar ôl cael cyngor annibynnol gan y Corff sy'n Adolygu Uwch Gyflogau.

Bydd y Corff Adolygu hefyd yn cynghori'r Prif Weinidog o bryd i'w gilydd am gyflogau a phensiynau Aelodau Seneddol (ASau) a'u lwfansau; am lwfansau'r Arglwyddi; ac am gyflogau, pensiynau a lwfansau Gweinidogion ac eraill y pennir eu tâl dan Ddeddf Cyflogau Gweinidogion a Chyflogau Eraill 1975.

Wrth lunio'i argymhellion, bydd y Corff Adolygu'n rhoi sylw i'r ystyriaethau a ganlyn:

- bod angen recriwtio, cadw a chymell pobl alluog a chymwysedig addas roi eu gwahanol gyfrifoldebau ar waith;
- amrywiadau rhanbarthol/lleol yn y marchnadoedd llafur a'u heffeithiau ar recriwtio a chadw staff;
- polisïau'r llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gofyniad i Adrannau gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer cyflawni gwasanaethau Adrannol;
- yr arian sydd ar gael i Adrannau, fel y'i pennir yn Nherfynau Gwariant Adrannol y Llywodraeth; a
- tharged chwyddiant y Llywodraeth.

Bydd y Corff Adolygu'n ystyried y dystiolaeth a gaiff am ystyriaethau economaidd ehangach a pha mor fforddiadwy yw ei argymhellion.

Mae rhagor o wybodaeth am waith y Corff Adolygu yn www.ome.uk.com

Nid yw Swyddfa Cymru'n cyflogi neb ei hun Mae'r staff i gyd naill ai'n gweithio i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder neu ar fenthyg gan Adrannau eraill y Llywodraeth. Pwyllgor Taliadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n pennu taliadau cysylltiedig â pherfformiad heb eu cyfuno i Uwch Weision Sifil ar sail eu perfformiad.

Bydd cyflogau Uwch Weision Sifil yn cael eu pennu'n unol â pholisi Gwobrwyo'r Uwch Wasanaeth Sifil.

## Contractau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud yn ofynnol penodi gweision sifil ar sail rhagoriaeth mewn cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau sy'n caniatáu penodi drwy ddulliau eraill.

Oni nodir fel arall isod, penodiadau agored fydd penodiadau'r swyddogion y mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio atynt. Byddai terfynu penodiad yn gynnar, heblaw am oherwydd camymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn cael iawndal fel y'i pennir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn www. civilservicecommission.org.uk

## Cyflogau gweinidogion a hawliau pensiwn

Dangosir cyflogau, buddion trethadwy mewn nwyddau a hawliau pensiwn i Weinidogion yn y tablau isod. Mae ffigurau'r cyflogau'n cynnwys pob lwfans sy'n daladwy gan Swyddfa Cymru. Bydd pob swm cyfatebol blwyddyn-lawn yn cael ei gyfrifo net o lwfansau, bonysau a thaliadau ex gratia.

Gyda golwg ar Weinidogion Tŷ'r Cyffredin, dim ond cost y taliadau gweinidogol ychwanegol a ysgwyddir gan yr Adrannau, bydd y cyflog ar gyfer gwasanaethu fel AS (£74,000 o 8 Mai 2015, £74,962 o 1 Ebrill 2016), a'r amrywiol lwfansau y bydd ganddynt yr hawl iddynt yn cael eu hysgwyddo'n ganolog. Serch hynny, mae'r trefniant ar gyfer Gweinidogion yn Nhŷ'r Arglwyddi'n wahanol oherwydd nid ydynt yn cael cyflog ond yn hytrach daliad ychwanegol, nad oes modd ei gyfrifo ar wahân i'w cyflogau fel Gweinidogion. Telir cyfanswm y taliadau hyn, yn ogystal â'r lwfansau y mae ganddynt yr hawl iddynt gan yr Adran ac felly fe'u dangosir yn llawn yn y ffigurau isod.

## Buddion ar ffurf nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion ar ffurf nwyddau'n cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac y mae Cyllid a Thollau EM yn eu trin yn enillion trethadwy. Ni chafodd yr un o Weinidogion Swyddfa Cymru fuddion ar ffurf nwyddau yn 2016-17 nac yn 2015-16.

## Taliadau (cyflogau, a phensiynau)

| Ministers | Cyflog (£) | | Buddion pensiwn (at y £1,000 agosaf)[1] | | Cyfanswm (at y £1,000 agosaf) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016-17 | 2015-16 | 2016-17 | 2015-16 | 2016-17 | 2015-16 |
| Y Gwir Anrh Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol (o 19 Mawrth 2016)* | 67,505 | 2,359 | 17,000 | 1,000 | 85,000 | 3,000 |
| Y Gwir Anrh Stephen Crabb AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (hyd at 19 Mawrth 2016) ** | dg | 67,505 | dg | 24,000 | dg | 92,000 |
| Guto Bebb, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol (o 19 Mawrth 2016)*** | dim | dg | dim | dg | dim | dg |
| Yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol ( o fis Mai 2015) **** | dim | dg | dim | dg | dim | dg |
| Y Farwnes Randerson, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol (hyd at fis Mai 2015) | dg | dim | dg | dim | dg | dim |

Nodiadau am y tabl:

1. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnir yn ystod y flwyddyn drwy gyfrifo (y gwir gynnydd yn y pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys cynnydd yn sgil chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

* Penodwyd Alun Cairns AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 19 Mawrth 2016. Gynt, roedd yn Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru. Mae ei gyflog ar gyfer 2015-16 yn adlewyrchu ei benodi'n Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 19 Mawrth. Y swm amser llawn sy'n cyfateb i'w gyflog yw £67,505.

** Stephen Crabb AS oedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru tan 19 Mawrth 2016

*** Penodwyd Guto Bebb AS yn Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru ar 19 Mawrth 2016

****Ar ôl etholiad cyffredinol Mai 2015, penodwyd yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth yn Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Swyddfa Cymru a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Ar 17 Gorffennaf 2017 yn dilyn ad-drefnu'r Cabinet, penodwyd yr Arglwydd Bourne yn Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Parhaodd â'i rôl fel Gweinidog yn Swyddfa Cymru.

Telir costau taliadau i'r ddau Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol o'r Gronfa Gyfunol a chan Dŷ'r Cyffredin yn y drefn honno.

| BUDDION PENSIWN | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweinidogion | Pensiwn Cronnus yn 65 oed ar 31 Mawrth 2017 £000 | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn yn 65 oed £000 | CETV ar 31 Mawrth 2017 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2015*1 £000 | Cynnydd/ gostyngiad gwirioneddol mewn CETV £000 £000 |
| Alun Cairns As, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol (o 19 Mawrth 2016)*** | 1976 | 0-2.5 | 22 | 9 | 5 |
| Y Gwir Anrh Stephen Crabb AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (hyd at 19 Mawrth 2016) ** | dg | dg | dg | 57 | dg |
| Guto Bebb, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol (o 19 Mawrth 2016)*** | dim | dim | dim | dim | dim |
| Yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol (o fis Mai 2015) **** | dim | dim | dim | dim | dim |
| Y Farwnes Randerson, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol (hyd at fis Mai 2015) | dg | dg | dg | dim | dg |

Nodiadau am y tabl:

*1 Nodi nad yw ffigur "dyddiad dechrau CETV" eleni'n cyfateb i ffigur "dyddiad diwedd" y llynedd. Y rheswm dros hyn yw bod y PCPF wedi newid y ffactorau trosglwyddo a ddefnyddir. Newidiwyd y ffactorau hyn ym mis Mawrth 2016 ar ôl i Drysorlys EM ddiweddaru ei ganllawiau sy'n pennu'r tybiaethau ariannol i'w defnyddio i gyfrifo CETVs o'r PCPF. Mae rhagor o wybodaeth am y newid hwn yma: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/508105/Basis_for_setting_the_discount_rate_for_calculating_cash_equivalent_transfer_values_payable_from_the_public_service_pension_schemes.pdf

* Penodwyd Alun Cairns AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 19 Mawrth 2016. Gynt, ef oedd Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru.

** Stephen Crabb AS oedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru tan 19 Mawrth 2016

*** Penodwyd Guto Bebb ASs yn Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru ar 19 Mawrth 2016

****Ar ôl etholiad cyffredinol Mai 2015, penodwyd yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth yn Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Swyddfa Cymru a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Ar 17 Gorffennaf 2017 yn dilyn ad-drefnu'r Cabinet, penodwyd yr Arglwydd Bourne yn Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Parhaodd â'i rôl fel Gweinidog yn Swyddfa Cymru.

Mae dg yn dangos nad oes gwybodaeth flaenorol wedi'i chyhoeddi (dg = dim gwybodaeth)

## Pensiynau Gweinidogion

Darperir buddion pensiwn i Weinidogion drwy'r Gronfa Bensiwn Gyfrannol Seneddol (PCPF)/ Gwneir y cynllun dan statud ac mae'r rheolau i'w gweld yn y ddogfen Ministers' etc. Pension Scheme 2015, sydd ar gael yma:http://qna.files.parliament.uk/ws-attachments/170890/original/PCPF%20MINISTERIAL%20SCHEME%20FINAL%20RULES.doc.

Caiff y Gweinidogion hynny sy'n Aelodau Seneddol gronni pensiwn AS hefyd o dan y PCPF (nid yw manylion y rhain yn yr adroddiad hwn). Cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd i ASau ym mis Mai 2015, ond mae gan aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2013 warchodaeth drosiannol er mwyn iddynt aros yn y cynllun pensiwn cyflog terfynol blaenorol.

Mae buddion i Weinidogion yn daladwy adeg oedran Pensiwn y Wladwriaeth o dan gynllun 2015. Bydd pensiynau'n cael eu hailbrisio bob blwyddyn yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Chynyddu Pensiynau cyn ymddeol ac wedyn.

Y gyfradd gyfrannu o fis Mai 2015 yw 11.1% a'r gyfradd gronni yw 1.775% o'r enillion pensiynadwy.

Mae'r ffigur a ddangosir ar gyfer gwerth pensiynau'n cynnwys cyfanswm y pensiwn sy'n daladwy i'r aelod o dan gynlluniau pensiwn Gweinidogion cyn 2015 ac ar ôl 2015.

## Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn sydd wedi cronni gan aelod ar adeg benodol ac sydd wedi'i asesu can actiwari. Buddion cronnus yr aelod yw'r buddion a brisir ynghyd ag unrhyw bensiwn dilynol i'r cymar sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn ymadael â chynllun neu'n dewis trosglwyddo buddion y pensiwn y mae wedi'u cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae ffigurau'r pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni yn sgil cyfanswm eu gwasanaeth fel Gweinidog, nid dim ond yn ystod eu swydd gyfredol fel Gweinidog. Bydd CETVs yn cael eu cyfrifo'n unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac ni fyddant yn ystyried unrhyw wir ostyngiad neu ddarpar ostyngiad i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd rhywun yn codi ei bensiwn.

## Y gwir gynnydd yng ngwerth y CETV

Dyma'r elfen o'r cynnydd yn y pensiwn cronnus y mae'r Trysorlys yn ei hariannu. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn sgil chwyddiant na chyfraniadau a delir gan y Gweinidog. Mae'n cael ei chyfrifo drwy ddefnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Cyflogau a hawliau pensiwn Uwch Reolwyr

Mae cyflog yn cynnwys y cyflog gros, taliad am berfformiad neu fonysau; goramser; hawliau cadw ar gyfer pwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau ei bod yn ddarostyngedig i dreth yn y Deyrnas Unedig. Seilir yr adroddiad hwn ar daliadau cronnus gan Swyddfa Cymru ac felly a gofnodir yn y cyfrifon hyn.

Mae ffigurau'r cyflogau'n cynnwys pob lwfans sy'n daladwy gan Swyddfa Cymru. Bydd pob swm cyfatebol blwyddyn lawn yn cael ei gyfrifo net o lwfansau, bonysau a thaliadau ex gratia. Telir bonysau ar sail lefelau perfformiad ac fel rhan o'r broses arfarnu. Mae'r bonysau yr adroddwyd yn eu cylch yn 2016-17 yn berthnasol i berfformiad yn 2015-16 ac mae'r bonysau cymharol ar gyfer 2015-16 yn berthnasol i berfformiad 2014-15.

Cefnogwyd yr Uwch Reolwyr gan y Prif Gyfrifydd a Phennaeth y Gwasanaeth Corfforaethol sy'n mynd i bob un o gyfarfodydd Bwrdd Swyddfa Cymru a'r Pwyllgor Sicrhau Risg.

Dangosir cyflogau, buddion trethadwy mewn nwyddau a hawliau pensiwn i Uwch Reolwyr yn y tablau isod:–

| CYFANSWM UNIGOL Y TALIADAU | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Swyddogion | Cyflog (£'000) | | Taliadau bonws (£,000) | | Buddion mewn nwyddau (hyd at y £100 agosaf) | | Buddion pensiwn (at y £1000 agosaf)[3] | | Cyfanswm (£'000) | |
| | 2016 -17 | 2015 -16 | 2016 -17 | 2015 -16 | 2016 -17 | 2015 -16 | 2016 -17 | 2015 -16 | 2016 -17 | 2015 -16 |
| Glynne Jones Cyfarwyddwr | 85-90 | 85-90 | dim | dim | dim | dim | 35,000 | 41,000 | 120-125 | 125-130 |
| Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol | 65-70 | 65-70 | dim | dim | dim | dim | 14,000 | 16,000 | 80-85 | 85-90 |
| Allan Ross, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu | 75-80 | 75-80 | dim | 0-5 | dim | n/a | 27,000 | 82,000 | 100-105 | 160-165 |
| Robin Healey, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi†{ut3 | 65-70 | 5-10 | dim | dg | dim | n/a | 47,000 | 6,000 | 115-120 | 10-15 |
| Kate Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat hyd at 31 Awst 2016†† | 30-35 | 55-60 | dim | dg | dim | n/a | 14,000 | 17,000 | 45-50 | 70-75 |
| Michael Dynan-Oakley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat o 20 Chwefror 2017††† | 5-10 | n/a | dim | dg | dim | dg | dg | dg | 5-10 | dg |
| Sarah Stoney, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfreithiol o 24 Hydref 2016†††† | 45-50 | n/a | dim | dg | dim | dg | 21,000 | dg | 65-70 | dg |
| Sian Oborne Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat hyd at 22 Mai 2015 ††††† | dg | 10-15 | dg | dim | dg | 1,900 | dg | 19,000 | dg | 30-35 |

Nodiadau am y tabl:

3. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnir yn ystod y flwyddyn drwy gyfrifo (y gwir gynnydd yn y pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys cynnydd yn sgil chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn. Mae Robin Healey ar fenthyg gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig (un o asiantaethau gweithredol Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig). Fe'i penodwyd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Polisi ym mis Chwefror 2016. Mae cyflog cyfwerth ag amser llawn Robin yn 2015–16 yn yr ystod rhwng £65 a £70. Sylwer, yn sgil ôl–ddiweddariad i'r data am gyflogau, fod ffigurau 2015–16 wedi'u hailgyfrifo.

†† Penodwyd Kate Davies yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Swyddfa Breifat ar 2 Gorfennaf 2015 a gadawodd Swyddfa Cymru ar 31 Awst 2016. Roedd ei chyflog cyfwerth ag amser llawn yn 2016–17 yn yr ystod rhwng £75k ac £80k (2015–16 yn yr ystod £75k i 80k).

††† Mae Michael Dynan–Oakley ar fenthyg gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Fe'i penodwyd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Swyddfa Breifat ar 20 Chwefror 2017. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n dal i dalu costau ei gyflog o 20 Chwefror tan 31 Mawrth ac felly bydd manylion ei bensiwn cronnus dros yr un cyfnod yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Taliadau'r flwyddyn nesaf. Roedd ei gyflog cyfatebol amser llawn ar gyfer 2016–17 yn yr ystod rhwng £75k ac £80k.

†††† Mae Sarah Stoney ar fenthyg gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth. Fe'i penodwyd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyfreithiol ar 24 Hydref 2016. Bydd costau ei chyflog hi'n cael eu talu gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth a'u hawlio yn ôl gan Swyddfa Cymru. Roedd ei chyflog cyfatebol amser llawn ar gyfer 2016–17 yn yr ystod rhwng £95k a £100k.

††††† Roedd Sian Oborne ar fenthyg gan Lywodraeth Cymru tan 22 Mai 2015. Talodd Swyddfa Cymru gost ei llety pan oedd yn gweithio yn Llundain.

## Cyfarwyddwyr Anweithredol

| Taliadau | Cyflog heb gynnwys bonysau (gan gynnwys lwfansau (£'000) | | Buddion mewn nwyddau (hyd at y £100 agosaf) | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016-17 £000 | 2015-16 £000 | 2016-17 | 2015-16 | 2016-17 £000 | 2015-16 £000 |
| Isobel Garner, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio o 1 Ebrill 2016 | 10–15 | 5–10 | dim | dim | 10–15 | 5–10 |
| Tom Jones, Cyfarwyddwr Anweithredol o 1 Ebrill 2016 | 5–10 | dg | dim | dg | 5–10 | dg |
| Ian Summers, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio hyd at 31 Mawrth 2016 | dg | 10–15 | dg | dim | dg | 10–15 |

## Buddion Pensiwn

| Uwch Reolwyr | Pensiwn cronnus a thaliad unswm cysylltiedig adeg oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2017 £000 | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn a'r taliad unswm cysylltiedig adeg oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2017 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2017 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2016 £000 | Cynnydd/ gostyngiad gwirioneddol mewn CETV £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Glynne Jones, Cyfarwyddwr | 30-35 a thaliad unswm o 85-90 | 0-2.5 a thaliad unswm o 0-2.5 | 563 | 522 | 17 |
| Geth Williams Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol | 20-25 a thaliad unswm o 60-65 | 0-2.5 a thaliad unswm o 0-2.5 | 408 | 379 | 10 |
| Allan Ross, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu | 15-20 a thaliad unswm o 35-40 | 0-2.5 a thaliad unswm o 0-2.5 | 211 | 191 | 8 |
| Robin Healey, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi o 15 Chwefror 2016† | 15-20 a thaliad unswm o 35-40 | 0-2.5 a thaliad unswm o 2.5-5 | 202 | 169 | 22 |
| Kate Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat hyd at 31 Awst 2016†† | 10-15 | 0-2.5 | 123 | 117 | 3 |
| Michael Dynan-Oakley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat o 20 Chwefror 2017††† | dg | dg | dg | dg | dg |
| Sarah Stoney, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfreithiol o 24 Hydref 2016†††† | 10-15 thaliad unswm of 30-35 | 0-2.5 thaliad unswm o 0-2.5 | 184 | 171 | 10 |
| Sian Oborne, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat hyd at 22 Mai 2015 ††††† | dg | dg | dg | 216 | dg |

Nodiadau am y tabl:

† Mae Robin Healey ar fenthyg gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig (un o asiantaethau gweithredol Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig). Fe'i penodwyd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Polisi ym mis Chwefror 2016.

†† Penodwyd Kate Davies yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Swyddfa Breifat ar 2 Gorffennaf 2015 a gadawodd Swyddfa Cymru ar 31 Awst 2016.

††† Mae Michael Dynan-Oakley ar fenthyg gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Fe'i penodwyd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Swyddfa Breifat ar 20 Chwefror 2017. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n dal i dalu costau ei gyflog o 20 Chwefror tan 31 Mawrth ac felly bydd manylion ei bensiwn cronnus dros yr un cyfnod yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Taliadau'r flwyddyn nesaf.

†††† Mae Sarah Stoney ar fenthyg gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth. Fe'i penodwyd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyfreithiol ar 24 Hydref 2016.

††††† Roedd Sian ar fenthyg gan Lywodraeth Cymru tan 22 Mai 2015. Oherwyddôl-ddiweddariad i'r data cyflogau, ailgyfrifwyd ffigurau 2014-15.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy gyfrwng trefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 ymlaen, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd i weision sifil – Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa a'r oedran pensiwn arferol yn cyfateb i Oedran Pensiwn Gwladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymlaen, ymunodd yr holl weision sifil a benodwyd o'r newydd a'r rhan fwyaf o'r rheini a oedd eisoes yn y gwasanaeth ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i'r PCSPS: Roedd tair o'r rhain yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol classic, premium neu classic plus gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan nuvos) gydag oedran bensiwn arferol o 65.

Mae'r trefniadau statudol hyn yn rhai heb eu hariannu a thelir cost y buddion drwy'r arian a ddyfernir drwy bleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r ddeddfwriaeth ynghylch Cynyddu Pensiynau. Arhosodd y rheini a oedd eisoes yn aelodau o'r Prif Gynllun ac a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran bensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheini a fyddai'n cyrraedd eu hoedran bensiwn arferol ymhen rhwng 10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis ar 1 Ebrill 2012 yn ymuno ag alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd buddion aelodau sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y Prif Gynllun Pensiwn yn cael eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn ymadael ag Alpha. (Mae ffigurau'r pensiynau a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn y Prif Gynllun Pensiwn neu yn alpha – fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn y Prif Gynllun Pensiwn ac yn alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun. Bydd aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ymlaen yn cael dewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu 'bensiwn rhanddeiliad 'prynu arian' gyda chyfraniad gan gyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau'r gweithwyr yn gysylltiedig â'u cyflog ac yn amrywio o 3% i 8.05% o'r enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau o'r cynllun classic (ac aelodau o alpha a oedd yn aelodau o classic yn union cyn iddynt ymuno ag alpha) a rhwng 4.6% ac 8.05% i aelodau premium, classic plus, nuvos a phob aelod arall o alpha. Bydd buddion y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, bydd cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o'r pensiwn cychwynnol yn daladwy pan fydd rhywun yn ymddeol. Ar gyfer y cynllun premium, bydd y buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Cynllun cyfun yn ei hanfod yw'r cynllun classic plus ac mae'r buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y'u cyfrifir ar gyfer y cynllun classic a'r buddion ar gyfer gwasanaeth ar ôl Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel y'u cyfrifir yn y cynllun premium. Yn y cynllun nuvos bydd aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) bydd y cyfrif pensiwn y mae'r aelod wedi'i ennill yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun a'r pensiwn cronnus yn cael ei uwchraddio'n unol â

deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Ym mhob achos, caiff aelodau ddewis ildio'u pensiwn a chael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir yn Neddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn i randdeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth Bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% (a dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o blith panel o ddarparwyr. Nid oes yn rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os bydd yn dewis cyfrannu, bydd y cyflogwr yn talu'r un swm hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Caiff y cyflogwr hefyd gyfrannu 0.8% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant risg buddion a delir yn ganolog (ar gyfer marwolaeth yn y swydd neu ymddeol o ganlyniad i afiechyd).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd gan yr aelod yr hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd yn gorffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Trigain oed yw oedran pensiwn aelodau o'r cynlluniau classic, premium a classic plus, 65 i aelodau o nuvos, 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, pa un bynnag sydd uchaf, i aelodau alpha. (Mae ffigurau'r pensiynau a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn y Prif Gynllun Pensiwn neu yn Alpha – fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn y Prif Gynllun Pensiwn ac yn Alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar wahanol oedran.)

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan: www.civilservice.gov.uk/pensionswww.civilservicepensionscheme.org.uk

## Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn sydd wedi cronni gan aelod ar adeg benodol ac sydd wedi'i asesu can actiwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw'r buddion y mae'r aelod wedi'u cronni ac unrhyw bensiwn wrth gefn sy'n daladwy i briod o'r cynllun. Taliad gan gynllun neu drefniant pensiwn yw CETV i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun gan ddewis trosglwyddo'r buddion y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i holl gyfnod ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid ei gyfnod yn y swydd uwch y mae'r datgeliad yn ymwneud â hi yn unig.

Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'u cronni o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw ostyngiad gwirioneddol na cunrhyw ostyngiad posibl mewn buddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Y gwir gynnydd yng ngwerth y CETV

Dyma'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd o ganlyniad i chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall. Caiff ei gyfrifo drwy ddefnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Lluosyddion Cyflog

Mae gofyn i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill fwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r corff.

Band tâl y cyfarwyddwr a oedd yn ennill fwyaf yn Swyddfa Cymru ym mlwyddyn ariannol 2016-17 oedd £85-90k (2015-16, £85 - 90k). Roedd hyn 2.8 gwaith (2015-16, 2.8 gwaith) tâl canolrif y gweithlu, sef £31,610 (2015-16, £30,337)

Yn 2016-17, ni chafodd yr un gweithiwr (2015-16, dim) dâl a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr a enillodd fwyaf. Roedd y tâl yn amrywio o £8,300 i £875,000 (2015-16, £8,300 i £86,000).

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog, tâl cysylltiedig â pherfformiad heb ei gyfuno a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau'r cyflogwr at bensiynau na gwerth trosglwyddo pensiynau sydd gyfwerth ag arian parod.

## Iawndal am golli swydd

Nid adawodd yr un o staff Swyddfa Cymru o dan delerau Ymadael yn Wirfoddol yn 2016-17 nac yn 2015-16.

### *Gweinidogion*

Nid adawodd yr un o Weinidogion Swyddfa Cymru o dan delerau diswyddo yn 2016-17 nac yn 2015-16.

# Adroddiad am Staff

## Costau Staff

Dangosir gwariant Swyddfa Cymru ar staff yn ystod 2016-17 yn y tabl isod:-

| | Staff a Gyflogir yn Barhol a Secondeion I mewn | Erall | Gweindogion | Cynghorwyr Arbennig | 31 Mawrth 2017 Cyfanswm | 31 Mawrth 2016 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyfolgau wythnosol a misol | 1,989 | 193 | 68 | 111 | 2,361 | 2,221 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 153 | - | 8 | 10 | 171 | 142 |
| Costau penswim eraill | 302 | - | - | 15 | 317 | 308 |
| **Cyfanswm y Costau Net** | **2,444** | **193** | **76** | **136** | **2,849** | **2,671** |

Cynllun buddion diffiniedig amlgyflogwr heb ei ariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), ond ni all Swyddfa Cymru nodi ei chyfran hi o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2013 ac mae'r manylion i'w gweld yn http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/media/94676/pcsps-2012-valuation-final-report-final-22072014.pdf

Ar gyfer 2016-17, roedd cyfraniadau'r cyflogwr at bensiynau, gwerth £318k (2015-16: £308k) yn daladwy i'r PCSPS ar un o bedair cyfradd rhwng 20% a 24.5% (2013-14: rhwng 16.7% a 24.3%) o'r cyflog pensiynadwy, wedi'i seilio ar fandiau cyflog. Bydd actwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd ar ôl prisio'r cynllun llawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, nid pan fydd y costau'n codi mewn gwirionedd, ac roeddent yn adlewyrchu'r profiad a gafwyd o'r cynllun yn y gorffennol.

Caiff gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau gan y cyflogwr gwerth £0 (2015-16: £0) i un neu fwy o'r panel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8.0% i 14.75% o'r cyflog pensiynadwy. Bydd cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniadau sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr hyd at 3.0% o'r cyflog pensiynadwy.

At hynny, roedd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr gyfwerth â 0.8% o'r cyflog pensiynadwy'n daladwy i'r PCSPS i dalu am gost darparu buddion cyfandaliadau yn y dyfodol pan fyddai gweithiwr sydd yn y cynllun PCSPS yn marw yn ystod ei wasanaeth neu'n ymddeol oherwydd afiechyd

Y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i bartneriaid darparwyr y pensiwn adeg dyddiad y cyfnod adrodd oedd Dim. (2015-16: £515.81).

Nid ymddeolodd neb yn ystod 2016–17 (2015–16: Dim) oherwydd afiechyd.


## Nifer y Staff

Dangosir nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod:

| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| **Adran Graidd** | | |
| **Staff parhaol** | 43.0 | 43.0 |
| **Eraill** | 4.0 | 6.0 |
| **Gweinidogion** | 2.0 | 2.0 |
| **Cynghorwyr Arbennig** | 2.0 | 1.0 |
| **Cyfanswm** | **51.0** | **52.0** |


Nid yw Swyddfa Cymru'n cyflogi neb ei hun ac felly rydym yn dal i gael gwasanaethau cyflogaeth gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae ein Cynllun Pobl presennol yn canolbwyntio'n bennaf ar Gynllunio Olyniaeth, Rheoli Doniau, Cynhwysiant, Perfformiad, Dysgu a Diwylliant

Roedd gan Swyddfa Cymru staff o 50 ar gyfer cyfnod 2016–17 ond mae'r siart isod yn dangos mai dim ond mewn un mis yr oedd y nifer lawn honno'n gweithio iddi:



Cyfanswm nifer y staff mewn swydd ar 31 Mawrth 2017 oedd 45 (43.39 cyfwerth ag amser llawn), a oedd yn cynnwys un gweithiwr asiantaeth (dros dro), un rheolwr dros dro, pedwar prentis; tri ar ddeg o staff ar fenthyg gan Adrannau eraill y Llywodraeth (un hyfforddai wedi'i gyllido); ac un secondai o'r tu allan i'r Gwasanaeth Sifil. Roedd 42% o'r staff yn gweithio yn ein swyddfa yng Nghaerdydd a 58% yn Gwydyr House, Llundain.

Rhoddir manylion y staff yn ôl graddfeydd y gwasanaeth sifil yn y siart isod:




Nid oedd unrhyw Wasanaeth Sifil neu gynlluniau iawndal arall yn 2015–16 neu 2016–17.

### *Recriwtio*

Bu'n rhaid i Swyddfa Cymru lenwi 20 o swyddi a ddaeth yn wag yn ystod 2016–17. Dilynwyd sawl llwybr i wneud hyn: Llenwyd tair swydd drwy reoli symudiadau o fewn Swyddfa Cymru; arweiniodd ymgyrchoedd ledled y Gwasanaeth Sifil at ddeg o fenthyciadau gan adrannau eraill y llywodraeth; cafwyd pedwar trosglwyddiad parhaol (dau o'r rheini wedi'u llenwi gan ymgeiswyr wrth gefn. Yn ystod dwy o'r ymgyrchoedd hyn (ar gyfer staff cyfathrebu arbenigol) ni chafwyd yr un cais ac felly aethpwyd ymlaen i drefnu penodiadau allanol. Llenwyd un swydd arall gan brentis a recriwtiwyd yn allanol.

### *Ymadawiadau, Ymddiswyddiadau ac Ymddeoliadau*

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gadawodd tri o staff y Gwasanaeth Sifil; rhoddwyd un aelod o'r staff ar fenthyg a throsglwyddodd pump o staff i adrannau eraill y llywodraeth; ac o blith staff ar fenthyg, dychwelodd pump i'w hadrannau eu hunain a throsglwyddodd un drwy gael dyrchafiad i adran arall yn y llywodraeth. Llwyddodd un o'n prentisiaid i gael lle ar brentisiaeth Llwybr Cyflym y Gwasanaeth Sifil ac mae wedi camu ymlaen i ddilyn ail gymhwyster mewn adran arall yn y llywodraeth.

Ni wnaeth neb ymddeol; ac ni chynigiwyd cynllun ymadael gwirfododl yn ystod y flwyddyn.

### *Yr Uwch Wasanaeth Sifil*

Ar 31 Mawrth 2017 roedd 6 swydd sylweddol i uwch weision sifil yn Swyddfa Cymru.

### *Cyfle Cyfartal*

| Staff mewn swydd yn yr Uwch Wasanaeth Sifil | Mawrth 2017 | Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| Cyfran o fenywod | 1 o blith 6 | 1 o blith 5 |
| Cyfran o fenywod ar fand Cyflog 2 ac uwch | 0 o blith 1 | 0 o blith 1 |
| Cyfran o Gefndir Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a ddatgelwyd | 0 o blith 6 | 0 o blith 5 |
| Cyfran o staff Anabl a ddatgelwyd | 0 o blith 6 | 0 o blith 5 |

| 2 Staff o dan Lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil | Mawrth 2017 | Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| Menywod | 44% | 44% |
| O gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig | 9.1%* | 5% |
| Anabl | 9.5%* | 5% |

* Oherwydd bod system e-Adnoddau Dynol newydd wedi'i rhoi ar waith, dim ond o fis Rhagfyr 2016 ymlaen y mae data ar gael.

### *Rheoli Perfformiad*

Mae Swyddfa Cymru wedi ymrwymo i reoli perfformiad yn effeithiol. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, cwblhawyd pob adolygiad staff mewn pryd. Goruchwyliwyd gwiriadau cysondeb a chyfarfodydd dilysu gan Bartner Busnes Adnoddau Dynol y Weinyddiaeth Cyfiawnder i gadarnhau bod y Swyddfa'n cydymffurfio'n effeithiol â'r broses a chynnig safbwynt annibynnol.

### *Arolwg Ymgysylltu â'r Staff*

Mae Swyddfa Cymru'n cymryd rhan yn yr arolwg blynyddol a gynhelir drwy'r gwasanaeth sifil. Ym mis Hydref 2016 llwyddwyd i ymgysylltu â 62% o'r staff, y sgôr uchaf erioed a gafwyd yn Swyddfa Cymru a hynny am y drydedd flwyddyn yn olynol. Trefnir cwestiynau'r arolwg o dan naw thema. Y tair thema lle y cafwyd y sgoriau cadarnhaol uchaf oedd: Amcanion a Phwrpas Sefydliadol (85%); Fy Nhîm (83%) sef yr un peth ag yn 2014; a Chynhwysiant a Thriniaeth Deg (78%). Roedd y trydydd maes yn wahanol i ganlyniadau 2015 pan oedd “Fy Ngwaith” ymhlith y tri uchaf.

Roedd a wnelo ein pum sgôr cadarnhaol uchaf â'r cwestiynau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Pan fyddaf yn sôn am y Swyddfa, byddaf yn dweud "ni" yn hytrach na "nhw". | 93% yn gadarnhaol |
| Gellir dibynnu ar y bobl yn fy nhîm i helpu pan fydd pethau'n mynd yn anodd yn fy swydd | 91% yn gadarnhaol |
| Mae pobl yn ymddiried ynof i wneud fy ngwaith yn effeithiol | 89% yn gadarnhaol |
| Mae'r bobl yn fy nhîm yn cydweithio i ddod o hyd i ffyrdd o wella'r gwasanaeth y byddwn yn ei ddarparu | 89% yn gadarnhaol |
| Mae gennyf ddiddordeb yn fy ngwaith | 89% yn gadarnhaol |

Meysydd lle y llwyddwyd i sicrhau sgoriau uwch na'r Unedau sy'n Perfformio'n Dda, h.y. y chwartel uchaf ar gyfer Gwasanaeth Sifil y Deyrnas Unedig, gyda golwg ar y cwestiynau a ganlyn:

| Cwestiwn | Gwahanol i'r Unedau sy'n Perfformio'n Dda |
|---|---:|
| Pan fyddaf yn sôn am y Swyddfa, byddaf yn dweud "ni" yn hytrach na "nhw". | +14 |
| Mae Uwch Reolwyr yn y Swyddfa'n ddigon amlwg | +14 |
| Ymdrinnir â pherfformiad gwael yn effeithiol yn fy nhîm | +8 |
| Drwyddi draw, rwy'n ymddiried yn y penderfyniadau a wneir gan Uwch Reolwyr y Swyddfa. | +8 |
| Mae'r swyddfa'n fy nghymell i gyflawni ei hamcanion | +7 |

Mae cynllun gweithredu y mae'r staff i gyd wedi cytuno arno ar waith i helpu i wella ein Mynegai Ymgysylltu eto fyth.

### *Dysgu a Datblygu (DaD)*

Sefydlwyd pythefnos DaD ym mis Mehefin 2016 i roi'r cyfle i'r staff asesu eu hanghenion dysgu a sylwi ar gyfleoedd ar ddechrau'r flwyddyn perfformiad.

Roedd Swyddfa Cymru hefyd yn gallu treialu sawl cwrs ar ran Dysgu'r Gwasanaeth Sifil a gynigiwyd i Swyddfa Cymru ac i staff Grŵp Llywodraethu ehangach y Deyrnas Unedig yn 2016. Ysgwyddodd Swyddfa Cymru hefyd gyfrifoldeb am sefydlu cynllun mentora drwy Grŵp Llywodraethu'r Deyrnas Unedig.

### *Ymrwymiadau Profiad Gwaith*

Daeth disgyblion unwaith eto o Ysgol Raynes Park High ar brofiad gwaith dan gynllun Prentisiaid Swyddfa Cymru ym mis Mehefin 2016. Hefyd, cefnogwyd sesiwn Ymwybyddiaeth o Yrfaoedd am weithio yn y gwasanaeth sifil ar ran sefydliad Ysbrydoli'r Dyfodol.

Crëwyd cyfleoedd newydd gan Swyddfa Cymru hefyd ar y cyd â Phrifysgol De Cymru a Phrifysgol Caerdydd gan gynnig lleoliad gwaith i fyfyrwyr o bob un o'r ddau yn 2016–17.

### *Cyflogi pobl anabl*

Mae Swyddfa Cymru'n dilyn Polisi Anabledd y Gweinidog Cyfiawnder ac mae wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb i bob aelod anabl o'r staff. Rydym yn hybu diwylliant sy'n galluogi staff anabl i gymryd rhan lawn ym myd gwaith, a darperir canllawiau ar gefnogi staff anabl drwy Lawlyfr Gallu'r Adran. Mae Swyddfa Cymru'n cymryd rhan yn y Cynllun Gwarantu Cyfweliad i ymgeisydd sydd ag anabledd.

### *Data am absenoldeb oherwydd salwch*

Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd yn y flwyddyn galendr ar ddiwedd 2016 oherwydd salwch staff oedd 4.2 o ddiwrnodau ar ddiwedd 2016. Mae hyn yn dal ymhell o dan gyfartaledd y Gwasanaeth Sifil.

### *Gwariant ar staff ymgynghori a staff dros dro*

Ni wariwyd dim ar ymgynghori yn 2016–17.

Cyfanswm y gwariant ar staff dros dro yn 2016–17 oedd £127,972 Defnyddiodd yr Adran staff dros dro yn lle staff ar gyfnod mamolaeth ac mewn swyddi gweigion.

### *Penodiadau oddi ar y Gyflogres*

Yn 2016–17, nid oed gan Swyddfa Cymru ddim penodiadau oddi ar y gyflogres a oedd yn costio mwy na £220 y diwrnod ac am chwe mis neu hwy.

### *Y Gymraeg*

Mae gan Swyddfa Cymru ei Chynllun Iaith Gymraeg ei hun ac mae'n adrodd bob blwyddyn i Gomisiynydd y Gymraeg am ei pherfformiad o'i gymharu â'r targedau a bennir yn y Cynllun. Mae Swyddfa Cymru'n sicrhau bod cyfran resymol o staff yn cael eu recriwtio sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog. Mae'r staff hyn yn gallu ymateb i ymholiadau dros y ffôn a gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg, pan fydd gofyn.

Rydym yn sylweddoli pa mor bwysig yw'r Gymraeg yn ein gwaith o ddydd i ddydd, a byddwn yn hyfforddi ac yn rhoi arweiniad i'r staff yn unol â hynny. Cynhelir archwiliad o sgiliau staff Swyddfa Cymru bob blwyddyn a dyma'r sail ar gyfer cynllunio ein gweithlu ac olyniaeth. Ar 31 Mawrth 2017, roedd 9% o'r staff yn gwbl ddwyieithog.

# Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio

Mae’r wybodaeth hon wedi cael ei harchwilio.

## Datganiad am y Cyflenwad Seneddol

Yn ogystal â’r datganiadau sylfaenol a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Cymru baratoi Datganiad am y Cyflenwad Seneddol a nodiadau ategol i ddangos alldro’r Adnoddau o’i gymharu â’r Amcangyfrif o’r Cyflenwad a gyflwynwyd i’r Senedd, gyda golwg ar bob terfyn rheoli cyllidebol. Rhaid archwilio’r Datganiad a’r nodiadau cysylltiedig.

### Crynodeb o Alldro’r Adnoddauau a Chyfalaf 2016-17

| | | 2016-17 Amcangyfrif | | | 2016-17 Alldro | | | 2016-17 Pleidleisiwyd | 2015-16 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn DCS | Pleidleisiwyd £000 | Heb ei bleidleisio £000 | Cyfanswm £000 | Pleidleisiwyd £000 | Heb ei bleidleisio £000 | Cyfanswm £000 | Alldro o’i gymharu â’r Amcangyfrif: arbediad / (dros ben) £000 | Cyfanswm £000 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | | | | |
| – Adnoddau | 1.1 | 4,722 | – | 4,722 | 4,513 | – | 4,513 | 209 | 3,946 |
| – Cyfalaf | 1.2 | 30 | – | 30 | - | – | - | 30 | 45 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | | |
| – Adnoddau | 1.1 | (24) | – | (24) | (24) | – | (24) | - | (22) |
| – Cyfalaf | 1.2 | – | – | – | - | – | - | - | – |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | | **4,728** | – | **4,728** | **4,489** | – | **4,489** | **239** | **3,969** |
| **Anghyllidebol** | | | | | | | | | |
| – Adnoddau | 1.1 | 14,030,920 | – | 14,030,920 | 13,525,626 | – | 13,525,626 | 505,294 | 13,392,591 |
| **Cyfanswm** | | **14,035,648** | – | **14,035,648** | **13,530,115** | – | **13,530,115** | **505,533** | **13,396,560** |
| Cyfanswm Adnoddau | | 14,035,618 | – | 14,035,618 | 13,530,115 | – | 13,530,115 | 505,503 | 13,396,515 |
| Cyfanswm Cyfalaf | | 30 | – | 30 | – | – | – | 30 | 45 |
| **Cyfanswm** | | **14,035,648** | – | **14,035,648** | **13,530,115** | – | **13,530,115** | **505,533** | **13,396,560** |

**Gofyniad Arian Parod Net 2016 -17**

| | Nodyn | 2016-17 Amcangyfrif £000 | 2016-17 Alldro £000 | 2016-17 Alldro o’i gymharu â’r Amcangyfrif: arbediad / (dros ben) £000 | 2015-16 Alldro £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofyniad arian parod net | SOPS3 | 14,035,521 | 13,530,144 | 505,377 | 13,396,489 |

**Administration costs 2016-17**

| | 2016-17 Amcangyfrif £000 | 2016-17 Alldro £000 | 2015-16 Alldro £000 |
|---|---|---|---|
| SOPS3 | 4,542 | 4,350 | 3,892 |

Y ffigurau sydd wedi’u hamlinellu’n dywyll yw’r cyfansymiau a bleidleisiwyd yn ddarostyngedig i reolaeth Seneddol. Yn ogystal â hyn, er nad yw’n derfyn y pleidleisir yn ei gylch ar wahân, bydd unrhyw dorri ar gyllideb y weinyddiaeth hefyd yn arwain at bleidleisio swm dros ben.

Rhoddir esboniad am yr amrywiadau rhwng yr Amcangyfrif a’r Alldro yn Nodyn 2 y Datganiad (Dadansoddiad o’r alldro net fesul adran) ac yn y Sylwebaeth ar yr Adolygiad Ariannol 16.

## SOPS1.1 Dadansoddi alldro'r adnoddau net fesul adran

| | | Administration | | | Programme | | 2016-17 Alldro | 2016-17 Amcangyfrif | | 2015-16 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net o'i gymharu â'r Amcangyfrif | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Gwariant yn y Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | | | |
| **Pleidleisiwyd** | | | | | | | | | | |
| A Swyddfa Cymru | 4,401 | (51) | 4,350 | 163 | – | 163 | 4,513 | 4,722 | 209 | 3,946 |
| **Cyfanswm y Gwariant a bleidleisiwyd yn DEL** | **4,401** | **(51)** | **4,350** | **163** | **–** | **163** | **4,513** | **4,722** | **209** | **3,946** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | | | | | | | | |
| **Gwariant a bleidleisiwyd** | | | | | | | | | | |
| B Darpariaethau | (24) | – | (24) | – | – | – | (24) | (24) | – | (22) |
| **Cyfanswm; Gwariant a bleidleisiwyd yn yr AME** | **(24)** | **–** | **(24)** | **–** | **–** | **–** | **(24)** | **(24)** | **–** | **(22)** |
| **Gwariant Anghyllidebol** | | | | | | | | | | |
| C Grant yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | – | – | – | 13,525,626 | – | 13,525,626 | 13,525,626 | 14,030,920 | 505,294 | 13,392,591 |
| **Cyfanswm ar gyfer yr Amcangyfrif:** | – | – | – | 13,525,626 | – | 13,525,626 | 13,525,626 | 14,030,920 | 505,294 | 13,392,591 |
| **Cyfanswm a bleidleisiwyd yn yr Amcangyfrif** | **4,377** | **(51)** | **4,326** | **13,525,789** | **–** | **13,525,789** | **13,530,115** | **14,035,618** | **505,503** | **13,396,515** |

## SOPS1.2 Dadansoddi alldro'r adnoddau net fesul adran

| | 2016-17 Alldro | | | 2016-17 Amcangyfrif | | 2015-16 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros | Incwm | Net | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net Alldro o'i gymharu â'r Amcangyfrif | Net |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Gwariant yn y Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | |
| **Gwariant a bleidleisiwyd** | | | | | | |
| A Swyddfa Cymru | – | – | – | 30 | – | 45 |
| **Cyfanswm y Gwariant a bleidleisiwyd yn DEL** | – | – | – | 30 | – | 45 |
| **Cyfanswm ar gyfer yr Amcangyfrif:** | – | – | – | **30** | – | **45** |

## SOPS2 Cysoni'r alldro â'r gwariant cost gweithredol net

## SOPS2.1 Cysoni alldro'r adnoddau net â'r gwariant gweithredol net

| | SoPS Nodyn | 2016-17 Alldro £000 | 2015-16 Alldro £000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm alldro adnoddau yn y Datganiad am y Cyflenwad Seneddol** | | | |
| Cyllideb | 1.1 | 4,489 | 3,924 |
| Anghyllidebol | 1.1 | 13,525,626 | 13,392,591 |
| | | **13,530,115** | **13,396,515** |
| **Ychwanegu:** | | | |
| Grantiau cyfalaf (net o gyfraniadau'r UE) | | - | - |
| Eraill | | - | - |
| | | - | - |
| **Llai:** | | | |
| Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | | - | - |
| Eraill | | | |
| | | - | - |
| **Costau Gweithredol Net yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr** | | **13,530,115** | **13,396,515** |

## SOPS3. Cysoni Alldro'r Adnoddau Net â'r Gofyniad Arian Parod Net

| | SoPS Nodyn | Amcangyfrif | Alldro | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r Amcangyfrif: arbediad/(dros ben) |
|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 |
| **Alldro Adnoddau** | 1.1 | 14,035,618 | 13,530,115 | 505,503 |
| **Alldro Cyfalaf** | 1.2 | 30 | - | 30 |
| **Croniadau i'r addasiad arian parod** | | | | |
| *Addasiadau i dynnu eitemau nad ydynt yn arian parod:* | | | | |
| Dadbrisiant | | (120) | (109) | (11) |
| Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol | | 11 | 11 | - |
| Darpariaeth Ariannol heb ei Dyrannu | | - | - | - |
| Gwariant cyfalaf a gefnogir (refeniw) | | - | - | - |
| Addasiadau'r Cyfnod Blaenorol | | - | - | - |
| Eitemau anariannol eraill | | (31) | (29) | (2) |
| *Addasiadau ar gyfer Cyrff Cyhoeddus Anadrannol:* | | | | |
| Tynnu'r adnodd a'r cyfalaf a bleidleisiwyd | | - | - | - |
| Ychwanegu cymorth grant arian parod | | - | - | - |
| *Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:* | | | | |
| Croniadau cyfalaf | | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn stoc | | - | - | - |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy | | - | 39 | (39) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy | | - | 104 | (104) |
| Defnyddio darpariaethau | | 13 | 13 | - |
| **Tynnu eitemau yn y gyllideb nas pleidleisiwyd:** | | | | |
| Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol | | | | |
| Addasiadau eraill | | | | |
| **Gofyniad arian parod net** | | 14,035,521 | 13,530,144 | 505,377 |

## SOPS4 Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

### SOPS4.1 Dadansoddi'r Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

Mae a wnelo'r incwm a ganlyn â Swyddfa Cymru ac mae'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (derbyniadau arian parod wedi'u dangos mewn print italig).

| | | Alldro 2016-17 | | Alldro 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Incwm | Derbyniadau | Incwm | Derbyniadau |
| | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Incwm gweithredol y tu allan i ffiniau'r Amcangyfrif –** | | | | | |
| Blaendaliadau Etholiad y Cynulliad a Gollwyd | | *34* | *34* | – | – |
| **Cyfanswm yr Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | | **34** | **34** | – | – |

Nid yw incwm y Gronfa Gyfunol a ddangosir yn nodyn 4.1 yn cynnwys dim symiau a gasglwyd gan Swyddfa Cymru pan oedd yn gweithredu fel asiant i'r Gronfa Gyfunol yn hytrach na'r prif arferydd. Y symiau a gasglwyd fel asiant i'r Gronfa Gyfunol (sydd fel arall wedi'u heithrio o'r datganiadau ariannol hyn) oedd:

Dangosir yr incwm a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ac sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol yn y tabl isod

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Bentyciadau i Fyfyrwyr | 26,797 | 25,791 |
| Benthyciad Pont Cleddau | 200 | 100 |
| Tai Cymru | 8 | 8 |
| Llog Banc | 22 | 55 |
| Prynu System Gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai (HRA) | | 919,000 |
| **Swm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | **27,027** | **944,954** |
| | | |
| Balans a ddelid ar ddechrau'r flwyddyn | - | - |
| Taliadau i'r Gronfa Gyfunol | 27,027 | 944,954 |
| Balansau a ddelid ar ymddiriedaeth ddiwedd y flwyddyn | – | – |

Cyfanswm yr incwm a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol a 31 Mawrth 2017 a 31 Mawrth 2016:

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Incwm o 2015-16 | | 944,954 |
| Incwm o 2016-17 | 27,061 | |
| | **27,061** | **944,954** |

## 3. Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol

### 3.1 Colledion a Thaliadau Arbennig

Nid yw Swyddfa Cymru wedi colli dim na gwneud dim taliadau arbennig yn 2016-17 (2015-16 Dim).

### 3.2 Rhwymedigaethau Wrth Gefn

Nid oes gan Swyddfa Cymru ddim rhwymedigaethau wrth gefn.

**Glynne Jones**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**6 Gorffenaf 2017**

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 o dan Ddeddf a Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r cyfrifon ariannol yn cynnwys: Datganiadau ynghylch Gwariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian, Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau hyn wedi'u paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad am y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig, a'r wybodaeth yn yr Adroddiad am Daliadau a Staff a'r Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol a ddisgrifir yn yr adroddiadau a'r datgeliadau sydd wedi'u harchwilio.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad ynghylch Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn cynnig darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol ac adrodd yn eu cylch yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Yr wyf wedi cwblhau fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio i Archwilwyr.

## Hyd a lled yr archwiliad o'r datganiadau ariannol.

Mae archwiliad yn golygu casglu digon o dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi aswiriant rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatgan sylweddol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol ar gyfer amgylchiadau'r Adran ac wedi'u rhoi ar waith yn gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol wedi'w gwneud gan y Swyddog Cyfrifyddu; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Rwyf hefyd wedi darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i weld a oes unrhyw anghysonderau sylweddol â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac i weld a oes unrhyw wybodaeth sydd i bob golwg yn sylweddol anghywir ar sail y wybodaeth yr wyf wedi'i chasglu wrth baratoi'r archwiliad, neu sy'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os byddaf yn cael ar ddeall bod unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylweddol ymddangosiadol, byddaf yn ystyried goblygiadau hynny ar gyfer rhoi fy nhystysgrif.

Mae gofyn imi gael tystiolaeth ddigonol i gynnig aswiriant rhesymol bod y Datganiad am y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n gywir yr alldro o'i gymharu â'r cyfansymiau rheoli a ddyfarnwyd drwy bleidlais gan y Senedd ac na chroeswyd trothwy'r cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheoli a ddyfarnwyd drwy bleidlais gan y Senedd yw'r Terfynnau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf) , Anghyllidebol (Adnoddau)

a’r Gofyniad Arian Parod Net. Mae gofyn imi gasglu digon o dystiolaeth i roi aswiriant rhesymol bod y gwariant a’r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi’u rhoi ar waith at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu llywodraethu.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd o sylwedd:

- mae’r Datganiad am y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno’n gywir yr alldro o’i gymharu â’r cyfansymiau rheoli a ddyfarnwyd gan y Senedd drwy bleidlais ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ac yn dangos na chroeswyd trothwy’r cyfansymiau hynny; ac
- Yn fy marn i, ym mhob agwedd o sylwedd, mae’r gwariant a’r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi’u rhoi ar waith at y dibenion y mae’r Senedd wedi bwriadu iddynt gael eu defnyddio ac mae’r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu llywodraethu.

## Barn am y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i:

- mae’r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion yr Adran ar 31 Mawrth 2017 a’r gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae’r datganiadau ariannol wedi’u paratoi’n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd oddi tani.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i

- mae’r rhannau o’r Adroddiad am Daliadau a Staff a’r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol sydd i’w harchwilio wedi’u paratoi’n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaethpwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- mae’r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad am Berfformiad a’r Adroddiad am Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol.

## Materion yr wyf yn adrodd yn eu cylch drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd am y materion a ganlyn y byddaf yn adrodd amdanynt wrthych os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu nad oes datganiadau digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nad ymwelodd fy staff â hwy, neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad am Daliadau a Staff a'r datgeliadau am Atebolrwydd Seneddol sydd i'w harchwilio'n gyson â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae gofyn imi eu cael ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf ddim sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

**Sir Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

**7 Gorffenaf 2017**

**Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol**
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# 3 Y Datganiadau Ariannol

## Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net
## Ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r gwariant a'r incwm a gynhyrchir ac a ddefnyddir ar sail croniadau. Mae hefyd yn cynnwys incwm cynhwysfawr arall, sy'n cynnwys newidiadau i werthoedd asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill nad oes modd eto'u cydnabod yn incwm neu'n wariant.

| | Nodyn | 2016-17 Adran Graidd £000 | 2015-16 Adran Graidd £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 4 | (51) | (51) |
| **Cyfanswm Incwm Gweithredol** | | (51) | (51) |
| Costau Staff | 2 | 2,849 | 2,671 |
| Llety, cynnal a chadw a chyfleistodau | 3 | 400 | 407 |
| Dibrisiant | 3 | 109 | 100 |
| Gwariant gweithredol arall | 3 | 1,128 | 743 |
| Grant i Gronfa Gyfunol Cymru | 3 | 13,525,626 | 13,392,591 |
| Treuliau'r Arglwydd Raglawiaid | 3 | 54 | 54 |
| Llog NLF taladwy | | 1,655 | 1,677 |
| Llog NLF derbyniadwy | | (1,655) | (1,677) |
| **Cyfanswm Gwariant Gweithredol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017** | | **13,530,166** | **13,396,566** |
| **Gwariant Gweithredol Net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017** | | **13,530,115** | **13,396,515** |
| **Gwariant Cynhwysfawr Net Arall** | | | |
| **Gwariant Gweithredol Net** | | 13,530,115 | 13,396,515 |
| **Eitemau na chânt eu hailgategoreiddio i'r costau gweithredol net:** | | | |
| (Enillion) / colledion net ar ailbrisio Eiddo, Cyfarpar ac Offer Eiddo, Cyfarpar ac Offer | | (783) | (120) |
| **Eitemau y gellid eu hailgategoreiddio wedyn i'r costau gweithredol net:** | | | |
| (Enillion) / colledion net ar ailbrisio Eiddo, Cyfarpar ac Offer | | - | - |
| **Cyfanswm Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017** | | **13,529,332** | **13,396,395** |

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
## ar 31 Mawrth 2017

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno sefyllfa ariannol Swyddfa Cymru. Mae'n cynnwys tair prif gydran: asedau a berchnogir neu a reolir; rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill; ac ecwiti, gweddill gwerth yr endid.

| | Nodyn | 31 Mawrth 2017 £000 | 31 Mawrth 2016 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | |
| Eiddo, cyfarpar ac offer | 5 | 5,488 | 4,814 |
| Asedau ariannol | 8 | 11,212 | 11,330 |
| Symiau derbyniadwy sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | 9 | 4 | 4 |
| ***Cyfanswm asedau anghyfredol*** | | 16,704 | 16,148 |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Symiau masnach a derbyniadwy eraill | 9 | 431 | 367 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 7 | 78 | 201 |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | 509 | 568 |
| **Cyfanswm Asedau** | | 17,213 | 16,716 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach a thaladwy eraill | 10 | (1,058) | (1,260) |
| ***Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol*** | | (1,058) | (1,260) |
| **Asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol net** | | **16,155** | **15,456** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau | 11 | (40) | (64) |
| Rhwymedigaethau ariannol | 10 | (11,212) | (11,330) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | (11,252) | (11,394) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **4,903** | **4,062** |
| **Ecwiti trethdalwyr:** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | 1,204 | 1,138 |
| Y gronfa ailbrisio wrth gefn | | 3,699 | 2,924 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **4,903** | **4,062** |

**Glynne Jones**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**6 Gorffennaf 2017**

## Datganiad o Lifau Arian
## Ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

Mae'r Datganiad o Lifau Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn yr adran yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut y bydd yr adran yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a chyfwerth ag arian parod drwy gategoreiddio llifau arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llifau arian parod net sy'n codi yn sgil y gweithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o gostau'r gwasanaeth ac i ba raddau y mae'r gweithredi adau hyn yn cael eu hariannu drwy gyfrwng incwm. derbynwyr gwasanaethau a ddarperir gan yr adran. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli i ba raddau y mae'r llifau arian i mewn ac allan wedi'u gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at ddarparu gwasanaeth cyhoeddus yr adran yn y dyfodol.

| | Nodyn | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Llifau arian yn sgil gweithgareddau gweithredol** | | | |
| Cost gweithredol net | SOCNE | (13,530,115) | (13,396,515) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | 3 | 127 | 129 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau masnach a derbyniadwy eraill | 9 | (64) | (54) |
| *Llai: Symudiadau yn y symiau derbyniadwy sy'n berthnasol i eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr*[1] | | 25 | 10 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau masnach a thaladwy eraill | 10 | (320) | 83 |
| *Llai: Symudiadau yn y symiau taladwy sy'n berthnasol i eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr*[1] | | 216 | (75) |
| Defnyddio darpariaethau | 11 | (13) | (22) |
| ***All-lif arian parod net yn sgil gweithgareddau gweithredol*** | | **(13,530,144)** | **(13,396,444)** |
| **Llifau arian yn sgil gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, cyfarpar ac offer | 5 | – | (45) |
| Prynu asedau anghyfredol | | 91 | 79 |
| ***All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi*** | | **91** | **34** |
| **All-lifau yn sgil gweithgareddau ariannu** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) - Blwyddyn Gyfredol[2] | | 13,530,021 | 13,396,641 |
| Ad-dalu benthyciadau o'r NLF.[3] | | (91) | (79) |
| ***Ariannu net*** | | **13,529,930** | **13,396,562** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod cyn eu haddasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol.** | 7 | **(123)** | **152** |
| Derbyniadau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol sydd y tu allan i gwmpas gweithgareddau'r Adran | | 27,061 | 944,954 |
| Taliadau o symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol[4] | | (27,061) | (944,954) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod ar ôl eu haddasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol.** | 7 | **(123)** | **152** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | 7 | **201** | **49** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 7 | **78** | **201** |

1. Mae'r symudiadau'n cynnwys: balansau adrannol gyda'r Gronfa Gyfunol: a symiau taladwy sy'n gysylltiedig ag ariannu - benthyciadau NLF (prif daliad a llog), dyledwyr cyfalaf, prydlesi cyllid a PFi a threfniadau consesiynau gwasanaeth eraill
2. Dyma'r swm a dderbyniwyd o'r Gronfa Gyfunol yng nghyswllt y flwyddyn gyfredol.
3. Mae hyn yn cynnwys benthyciadau a ad-dalwyd gan endidau ar gyfer eu trosglwyddo ymlaen i'r NLF a'r llog a dderbyniwyd gan endidau i'w trosglwyddo i'r NLF.
4. Arian parod a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol o dan unrhyw gategori.

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr
## Ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan Swyddfa Cymru wedi'u dadansoddi'n 'gronfeydd cadw cyffredinol' (h.y. y cronfeydd cadw hynny sy'n adlewyrchu cyfraniad o'r Gronfa Gyfunol Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn adlewyrchu'r newid yng ngwerthoedd yr asedau nad ydynt wedi'u cydnabod yn incwm nac yn wariant. Mae'r Gronfa Gyffredinol yn adlewyrchu cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau adran, i'r graddau nad yw'r cyfanswm wedi'i gynrychioli gan gronfeydd cadw eraill ac eitemau ariannu.

| | Nodyn | Y Gronfa Gyffredinol £000 | Y Gronfa Ailbrisio wrth gefn £000 | Cyfanswm Ecwiti Trethdalwyr £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | | 1,124 | 2,807 | 3,931 |
| Newidiadau yn y polisi cyfrifyddu | | - | - | - |
| **Balans ar 1 Ebrill 2015** | | **1,124** | **2,807** | **3,931** |
| **Cyllido Seneddol Net** | | | | |
| - Tynnwyd i lawr | | 13,396,641 | - | 13,396,641 |
| - Tybiwyd | | 49 | - | 49 |
| Cyflenwad heb ei Wario a dynnwyd i lawr sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 10 | (201) | - | (201) |
| Gwariant Cynhwysfawr Net ar gyfer y flwyddyn | SOCNE | (13,396,515) | - | (13,396,515) |
| **Taliadau nad ydynt yn arian parod** | | | | |
| Taliadau i'r archwilydd | 3 | 29 | - | 29 |
| **Symudiadau Eraill yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| - Eiddo, Cyfarpar ac Offer | | - | 120 | 120 |
| - Eraill | | 5 | 3 | 8 |
| **Symudiadau yn y Cronfeydd Cadw** | | | | |
| - Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd cadw | | 6 | (6) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | | **1,138** | **2,924** | **4,062** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2016** | | 1,138 | 2,924 | 4,062 |
| **Cyllido Seneddol Net** | | | | |
| - Tynnwyd i lawr | SCF | 13,530,021 | - | 13,530,021 |
| - Tybiwyd | 10 | 201 | - | 201 |
| Cyflenwad heb ei Wario a dynnwyd i lawr sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 10 | (78) | - | (78) |
| Gwariant Cynhwysfawr Net ar gyfer y flwyddyn | SOCNE | (13,530,115) | - | (13,530,115) |
| **Taliadau nad ydynt yn arian parod** | | | | |
| - Taliadau i'r archwilydd | 3 | 29 | - | 29 |
| **Symudiadau Eraill yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| - Eiddo, Cyfarpar ac Offer | | - | 783 | 783 |
| - Eraill | | - | - | - |
| **Symudiadau yn y Cronfeydd Cadw** | | | | |
| - Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd cadw | | 8 | (8) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | | **1,204** | **3,699** | **4,903** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

## 1a) Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail y paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi'n unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2016-17 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y FReM yn dilyn y Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (FRS) fel y'u haddesir neu y'u dehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os bydd yr FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, y polisi cyfrifyddu a fernir fwyaf addas i amgylchiadau penodol Swyddfa Cymru at ddibenion rhoi darlun gwir a theg a ddewiswyd. Mae'r polisïau penodol a fabwysiadwyd gan Swyddfa Cymru wedi'u disgrifio isod. Maent wedi'u rhoi ar waith yn gyson wrth ymdrin â'r eitemau a ystyriwyd yn berthnasol yng nghyswllt y cyfrifon hyn.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r FReM hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Cymru baratoi un datganiad sylfaenol arall. Mae'r Datganiad am y Cyflenwad Seneddol a'i nodiadau ategol yn cofnodi'r alldro o'i gymharu â'r Amcangyfrif o ran yr adnoddau net sy'n ofynnol a'r arian parod net sy'n ofynnol.

Arian cyfred swyddogaethol a chyflwyniadol Swyddfa Cymru yw'r Bunt Sterling Brydeinig (£).

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r Cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y gonfensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu i ystyried ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, ac asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol.

### 1.3 Segmentau gweithredu

Ystyrir bod Swyddfa Cymru'n darparu un swyddogaeth ac, o ran adroddiadau IFRS, ystyrir ei bod yn un segment gweithredu.

### 1.4. Eiddo, cyfarpar ac offer

*Dull prisio*

Un ased ar ffurf eiddo sydd gan Swyddfa Cymru – Ty Gwydyr – sy'n cael ei gynnwys ar sail gwerth teg, yn unol â dehongliad y FReM, ar sail prisiad proffesiynol a gynhelir o leiaf unwaith. Rhwng y prisiadau proffesiynol, bydd gwerthoedd cario'n cael eu haddasu drwy brisiadau proffesiynol wrth ddesg.

Bydd prisiadau proffesiynol yn cael eu cynnal gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) gan ddefnyddio Llawlyfr Arfarnu a Phrisio Sefydliad y Syrfewyr Siartredig (RICS) a elwir yn 'Llyfr Coch'.

Adeilad rhestredig Gradd 2* yw Ty Gwydyr a brisir ar sail 'Defnydd Presennol' yn unol â'r Llyfr Coch, gan ystyried darfodedigrwydd swyddogaethol yr eiddo.

Bydd asedau nad ydynt yn eiddo'n cael eu cynnwys ar sail eu cost adeg eu prynu ac fe'u hailddatgenir ar bob dyddiad adrodd gan ddefnyddio Rhifau'r Mynegai Prisiau ar gyfer Cyfrifyddu Cost Gyfredol (PINCCA) a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

*Ailbrisio*

Pan fydd swm cario ased yn cynyddu yn sgil ailbrisio, bydd y cynnydd yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net i'r graddau ei fod yn gwrthdroi gostyngiad ailbrisio ar yr un ased a gydnabuid gynt yn y Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net. Bydd unrhyw gynnydd sy'n weddill yn cael ei gredydu'n uniongyrchol i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn ecwiti'r Trethdalwyr.

Pan fydd swm cario ased yn gostwng (ac eithrio yn sgil lleihad parhaol), bydd y gostyngiad yn cael ei gydnabod yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r graddau bod balans ar gyfer yr ased honno. Bydd unrhyw ostyngiad pellach sy'n fwy na'r gwargedau ailbrisio'n cael eu priodoli i'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net.

Bob blwyddyn, bydd y gwahaniaeth rhwng y dibrisiant sydd wedi'i seilio ar swm cario ailbrisiedig yr ased a briodolwyd i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr a'r dibrisiant sydd wedi'i seilio ar gost wreiddiol yr ased yn cael ei drosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Gronfa Gyffredinol.

*Trothwy cyfalafu – asedau unigol*

Trothwy cyfalafu asedau unigol Swyddfa Cymru yw £1,000 (gan gynnwys TAW).

*Trothwy cyfalafu – asedau gwedi'u grwpio*

Mae gan Swyddfa Cymru gronfa fach o asedau ar gyfer dodrefn a ffitiadau sydd wedi'u cyfalafu.

Bydd Swyddfa Cymru'n rhoi trothwy cyfalafu ar waith ar gyfer asedau wedi'u grwpio o £10,000 (gan gynnwys TAW).

## Dibrisiant

Priodolir dibrisiant ar sail llinell syth ar gyfraddau sydd wedi'u cyfrifo i ddileu gwerth asedau llai'r amcangyfrif o'r gwerth gweddilliol yn gyson dros eu hoes fuddiol yn ôl yr amcangyfrifon neu ar gyfer asedau sydd dan brydles, dros oes y brydles neu'r cyfnod sydd ymhlyg yn yr amserlen ad-dalu. Bydd oes fuddiol asedau neu gategorïau o asedau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn a bydd unrhyw newidiadau'n cael eu trafod gyda'r awdurdodau perthnasol i sicrhau bod goblygiadau cyllidebu wedi'u hystyried yn briodol. Os cytunir ar newid i oes ased, bydd yr ased yn cael ei didbrisio ar sail llinell syth dros weddill ei hoes yn unol â'r asesiad. Bydd y dibrisio'n cychwyn yn y mis ar ôl caffael ased anghyfredol ar gyfer tir, adeiladau ac anheddau ac yn ystod y mis ar gyfer pob ased anghyfredol arall.

Amcangyfrifir oes fuddiol asedau o fewn yr ystodau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Tir ar rydd-ddaliad | Ni chaiff ei ddibrisio |
| Adeiladau ar rydd-ddaliad (gan gynnwys anheddau) | Didbrisio dros oes yr asedau (hyd at 60 mlynedd) |
| Asedau wedi'u grwpio | Amrywiol a dibynnu ar y mathau o asedau unigol |
| Technoleg gwybodaeth | Pa un bynnag yw'r byrraf – gweddill cyfnod y les neu 3 i 15 mlynedd |
| Cyfarpar ac offer | Pa un bynnag yw'r byrraf – gweddill cyfnod y les neu 3 i 20 mlynedd |
| Dodrefn a ffitiadau | Pa un bynnag yw'r byrraf – gweddill cyfnod y les neu 5 i 20 mlynedd |
| Asedau wrthi'n cael eu hadeiladu | Ni chânt eu dibrisio |

Bydd y gwerthoedd cario'n cael eu hadolygu ar gyfer eu lleihau os bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n dangos nad yw'r gwerth cario o bosibl yn un y gellir ei adfer. Os pennir bod gwerth ased wedi gostwng, bydd hynny'n cael ei gofnodi ar unwaith a'i ostwng i'r swm adferadwy.

### *Gwaredu asedau anghyfredol*

Bydd enillion a cholledion wrth waredu asedau anghyfredol yn cael eu pennu drwy gymharu'r elw â'r swm cario ac fe'u cydnabyddir o fewn costau Gweinyddu neu gostau'r Rhaglen, fel sy'n briodol yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr.

Pan werthir asedau sydd wedi'u hailbrisio, bydd y symiau sydd wedi'u cynnwys yn y Gronfa Ailbrisio wrth gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

## 1.5 Asedau wrthi'n cael eu hadeiladu

Bydd asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu'n cael eu prisio ar sail eu cost hanesyddol o fewn eiddo, cyfarpar ac offer ac asedau anniriaethol ac ni fydd y rhain yn cael eu dadbrisio na'u hamorteiddio. Ni fydd ased yn cael ei chategoreiddio'n ased sydd wrthi'n cael ei hadeiladu bellach pan fydd yn barod i'w defnyddio. Yna, bydd ei gwerth cario'n cael ei dynnu o'r asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu a'u trosglwyddo i'r categori asedau perthnasol. Bydd y dadbrisio neu'r amorteiddio wedyn yn cael ei briodoli i'r ased yn unol â'r polisi cyfrifyddu datganedig.

Bydd gwariant yn cael ei gyfalafu pan fydd modd ei briodoli'n uniongoyrchol i sicrhau bod ased mewn cyflwr gweithio da. Os tybir nad oes modd priodoli'r gwariant i'r ased, bydd yn cael ei briodoli i'r Datganiad Gwariant Net.

## 1.6 Prydlesi

*Prydlesi gweithredol*

Mae prydlesi lle bydd y risgiau a'r gwobrwyon i gyd yn eu hanfod yn rhai sy'n cael eu dal gan y prydlesydd yn cael eu categoreiddio'n brydlesi gweithredol. Bydd prydlesi gweithredol ar rent yn cael eu priodoli i'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

*Trefniadau sy'n cynnwys prydles*

Wrth benderfynu a yw Swyddfa Cymru'n barti i brydles, asesir bod contractau nad ydynt ar ffurf gyfreithiol prydles ond a all gynnwys prydles o'i fewn, er enghraifft trefniadau contract allanol a chontractau cymryd-neu-dalu, yn unol â'r meini prawf a bennir gan IFRIC (Pwyllgor Dehongliadau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol) 4 'Determining Whether an Arrangement Contains a Lease'. Bydd y contract yn cael ei gyfrifyddu fel petai'n brydles os yw cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio ased neu asedau penodol a bod y trefniant yn cyfleu hawl i ddefnyddio'r ased. Yna, asesir y trefniant o dan IAS 17 i benderfynu a yw'n cael ei gategoreiddio'n brydles cyllido ynteu'n brydles weithredol.

## 1.7 Buddsoddiadau

*Y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol (NLF)*

Bydd rhagdaliadau gan y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol (NLF) yn cael eu trin yn fenthyciadau a'u datgelu ar sail cost hanesyddol. Mae'r balansau yn y cyfrifon hyn yn cynrychioli benthyciadau gan yr NLF a fenthyciwyd ymlaen gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu'r Canolbarth. Yna, fe'u trosglwyddwyd i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig yn yr 1980au, ac i Awdurdod Datblygu Cymru pan ddiddymwyd y Bwrdd yn 1998. Ar ôl diddymu Awdurdod Datblygu Cymru yn 2006, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ad-dalu'r prif fenthyciad a'r llog ac fe'i priodolir i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd y symiau a dderbynnir gan Swyddfa Cymru'n cael eu hildio i'r NLF. Bydd balansau benthyciadau sydd heb eu talu'n cael eu cynnwys yn y Symiau Masnach a Symiau Taladwy Eraill a Rhwymedigaethau Ariannol.

## 1.8 Buddion i weithwyr

### *Gwyliau wedi'u Cronni*

O dan IAS 19 'Employee Benefits', bydd gwyliau blynyddol a gwyliau hyblyg sydd heb eu cymryd yn cronni. Ni fydd bonysau am berfformiad yn cael eu cronni oherwydd ni fydd y broses arfarnu flynyddol sy'n pennu cyflogau ar sail perfformiad wedi'i chwblhau adeg paratoi'r Cyfrifon hyn.

### *Pensiynau*

Mae gweithwyr y gorffennol a'r presennol yn dod o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r cynlluniau buddion diffiniedig heb eu hariannu.

Mae'r Adran yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod pan fydd yn elwa o wasanaethau gweithwyr drwy dalu i'r PCSPS y symiau a gyfrifir ar sail gronnus. Mae'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn cael ei phriodoli i'r PCSPS. gyda golwg ar y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, mae'r adran yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn.

### *Costau ymadael yn gynnar*

Nid yw Swyddfa Cymru'n gyflogwr uniongyrchol Mae'r staff i gyd naill ai'n staff y Weinyddiaeth Cyfiawnder neu'n staff Llywodraeth Cymru a chyfrifoldeb yr Adrannau hyn yw talu costau ychwanegol y buddion y tu hwnt i PCSPS arferol staff sy'n ymddeol yn gynnar. O dan amgylchiadau penodol, lle bydd Swyddfa Cymru wedi cytuno i dalu'r costau, mae costau ymadael yn cynnar yn gael eu darparu'n llawn ar y pwynt y mae'r cytundeb yn eu cyfrwymo. Mae'r llifau arian sydd â'r risg wedi'u haddasu yn ôl yr amcangyfrif yn cael eu disgowntio drwy ddefnyddio cyfradd ddisgownt Trysorlys EM, sef 0.24% (2015-16: 1.37%) mewn termau gwirioneddol os ydynt yn berthnasol.

## 1.9 Incwm gweithredol

Incwm gweithredol yw'r incwm a enillir gan yr Adran.

## 1.10 Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol(CFERs)

Mae balansau CFERs yn cael eu cyfrifo ar sail croniadau, oni ddywedir yn wahanol. Mae'r rhain yn berthnasol yn bennaf i symiau a dderbyniwyd yn wreiddiol gan gyrff datganoledig penodol yng Nghymru sydd wedi'u dynodi gan y Trysorlys o dan Adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Telir y symiau hyn gan Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol a'u priodoli i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd Swyddfa Cymru hefyd yn derbyn symiau drwy adfer colli blaendaliadau etholiadau'r Cynulliad. Bydd Swyddfa Cymru'n talu'r symiau a dderbynnir i Gronfa Gyfunol y DU.

## 1.11 Gwariant ar Weinyddu a Rhaglenni

Mae'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net yn cynnwys gwariant ar weinyddu ar gyfer costau cynnal Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghyd â gwariant ar raglenni ar gyfer treuliau'r Arglwydd Raglawiaid a'r grant sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 1.12 Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fydd gan Swyddfa Cymru rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol, o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol, ac mae'n debygol y bydd all-lif o fuddion economaidd yn ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy ar gyfer swm y rhwymedigaeth.

Mae'r darpariaethau'n adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth. Os bydd effaith y disgowntio'n berthnasol, bydd y darpariaethau'n cael eu mesur yn ôl eu gwerth presennol, gan ddefnyddior gwir gyfradd a bennir gan Drysorlys EM, sef 2.7% ar hyn o bryd; o'u cymharu, y cyfraddau yn 2015-16 oedd 2.2%.

## 1.13 Treth ar Werth (TAW)

Priodolir TAW anadferadwy i'r categori gwariant perthnasol neu fe'i cynhwysir yng nghostau pryniant wedi'u cyfalafu'r asedau anghyfredol. Lle codir treth wrth werthu neu lle bydd treth wrth brynu yn adferadwy, bydd y symiau'n cael eu datgan net o TAW.

## 1.14 Offerynnau Ariannol

Bydd asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sy'n codi yn sgil contractau ar gyfer prynu a gwerthu eitemau anariannol (megis nwyddau neu wasanaethau), a drefnir yn unol â gofynion prynu, gwerthu neu ddefnyddio Swyddfa Cymru, yn cael eu cydnabod pan, ac i'r graddau y bydd y perfformiad yn digwydd. Bydd pob ased a rhwymedigaeth ariannol arall yn cael eu cydnabod pan fydd Swyddfa Cymru'n dod yn barti i ddarpariaethau contractaidd i dderbyn neu wneud taliadau arian parod. Bydd rhwymedigaethau ariannol yn cael eu dadgydnabod pan fydd y contract sydd wedi arwain atynt yn cael ei setlo, ei werthu, ei ganslo neu pan fydd yn dod i ben.

### *Categoreiddio a mesur – asedau ariannol*

Yn ogystal ag arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod, mae gan Swyddfa Cymru ddau gategori o asedau ariannol:

### *Benthyciadau a symiau derbyniadwy*

Mae benthyciadau a symiau derbyniadwy'n cynnwys symiau masnach derbyniadwy, symiau derbyniadwy eraill a benthyciadau sydd â thaliadau penodedig neu ragweladwy nad ydynt wedi'u dyfynnu mewn marchnad weithredol. Bydd benthyciadau a symiau derbyniadwy'n cael eu cydnabod i ddechrau ar eu gwerth teg ac wedyn byddant yn cael eu mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddioi'r dull llog effeithiol net o unrhyw leihad. Cydnabyddir y llog drwy ddefnyddio'r gyfradd llog effeithiol. Dull o gyfrif cost amorteiddedig ased ariannol yw hyn ac o ddyrannu refeniw'r llog neu'r gost dros y cyfnod perthnasol gan ddefnyddio amcangyfrif o'r llifau arian yn y dyfodol.

## 1.15 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod a gofnodwyd yn y Datganiad ynghylch y Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad Llif Arian yn cynnwys arian mewn llaw, adneuon a gedwir ar alwad gyda banciau, buddsoddiadau hylifol iawn tymor byr eraill, gydag aeddfedrwydd gwreiddiol o dri mis neu lai, a gorddrafftiau banc.

## 1.16 Amcangyfrifon a thybiaethau cyfrifyddu sylweddol

Mae’r Cyfrifon yn adlewyrchu amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â’r dyfodol. Yn ôl y diffiniad, nid yw’r amcangyfrifon yn debygol o fod yr un fath â’r canlyniadau gwirioneddol. Mae’r amcangyfrifon yn cael eu gwerthuso’n barhaus ac fe’u seilir ar brofiad hanesyddol a ffactorau perthnasol eraill gan gynnwys disgwyliadau ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Mae’r amcangyfrifon a’r tybiaethau sydd â risg sylweddol o achosi addasiad perthnasol i symiau cario asedau a rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf yn cael eu trafod isod.

### *Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau*

Mae’r darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau ac arwystlon yr adroddwyd amdanynt yn nodyn 11 yn adlewyrchu barn am y tebygolrwydd y bydd trosglwyddo buddion economaidd yn y dyfodol yn codi yn sgil digwyddiadau yn y gorffennol. Os tybir bod rhwymedigaeth yn debygol o grisialu a lle bydd modd mesur yr effaith gyda sicrwydd rhesymol, cydnabyddir darpariaeth. Os bernir ei bod yn bosibl y bydd rhwymedigaethau posibl yn crisialu, datgelir rhwymedigaeth wrth gefn.

### *Cyfrifyddu prydlesi*

Mae gofyn barnu wrth gategoreiddio prydlesi yn y lle cyntaf ai prydlesi gweithredol ynteu prydlesi cyllid ydynt.

Lle bydd prydles yn cael ei chodi ar gyfuniad o dir ac adeiladau, ceir cyfalafu elfen yr adeilad a’r tir fel prydlesi cyllid ar wahân os ydynt yn cyflawni’r meini prawf ar gyfer prydles cyllid. Os na fydd taliadau’r brydles dan y contract wedi’u rhannu rhwng tir ac adeiladau yng nghontract y brydles, gwneir y rhaniad ar sail gwerthoedd y tir a’r adeiladau ar y farchnad pan fydd y brydles yn cychwyn.

## 1.17 Rhoi safonau cyfrifyddu newydd nad ydynt yn effeithiol eto ar waith cyn bo hir

Ni ddisgwylir i safonau newydd nad ydynt yn effeithiol eto gael effaith sylweddol ar gyfrifon Swyddfa Cymru yn y dyfodol.

## 2. Costau Staff

| | Staff a Gyflogir yn Barhol a Secondeion I mewn | Eraill | Gweini-dogion | Cynghorwyr Arbennig | 31 Mawrth 2017 Cyfanswm | 31 Mawrth 2016 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau wythnosol a misol | 1,989 | 193 | 68 | 111 | 2,361 | 2,221 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 153 | – | 8 | 10 | 171 | 142 |
| Costau | 302 | – | – | 15 | 317 | 308 |
| **Cyfanswm Costau Net** | **2,444** | **193** | **76** | **136** | **2,849** | **2,671** |

Bydd costau staff a'u Niferoedd yn cael eu datgelu yn yr Adroddiad am Daliadau a Staff yn y Adroddiad Atebolrwydd.

## 3. Costau Gweinyddu Eraill

| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Llety, cynnal a chadw a chyfleistodau | 400 | 407 |
| Cyfathrebu, cyflenwadau swyddfa a gwasanaethau | 54 | 48 |
| Rhentu dan brydlesi gweithredol: tir ac adeiladau | 140 | 140 |
| Rhentu dan brydlesi gweithredol: eraill (cyfarpar, peiriannau, cerbydau ac ati) | 47 | 30 |
| Taliadau consesiynau gwasanaeth: TG | 5 | 74 |
| Gwasanaethau TG a thelathrebu (trefniadau consesiwn nad ydynt yn wasanaethau) | 152 | 34 |
| Gwasanaethau eraill sy'n cael contractio allan | 14 | 14 |
| Gwasanaethau proffesiynol | 325 | 71 |
| Teithio a chynhaliaeth | 149 | 115 |
| Costau hyfforddi a chostau eraill sy'n gysylltiedig â staff | 18 | 16 |
| Ffioedd a thaliadau banc | 3 | 2 |
| Gwariant arall ar weinyddu | 37 | 24 |
| Digwyddiadau a Chynadleddau | 4 | - |
| Dyrannu gorbenion | 162 | 146 |
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod** | | |
| Taliadau a threuliau archwilwyr | 29 | 29 |
| Darpariaeth ar gyfer adfer gwerth yn ystod y flwyddyn | (11) | – |
| **Cyfanswm Costau Gweinyddu** | **1,528** | **1,150** |
| ***Costau Rhaglen – Swyddfa Cymru*** | | |
| Treuliau'r Arglwydd Raglawiaid | 54 | 54 |
| Grant i Gronfa Gyfunol Cymru | 13,525,626 | 13,392,591 |
| ***Eitemau nad ydynt yn arian parod*** | | |
| *Dibrisiant | 109 | 100 |
| **Cyfanswm Costau Rhaglen** | **13,525,789** | **13,392,745** |
| **Gwariant Gweithredol Net ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017** | **13,527,317** | **13,393,895** |

* O 1 Ebrill 2017 ymlaen, newidiodd Trysorlys EM gategoreiddiad cyllidebol dadbrisiant o weinyddu i raglen.

## 4. Incwm

| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Incwm** | | |
| Incwm rhent | 51 | 51 |
| **Cyfanswm Incwm** | **51** | **51** |

Nid oes incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol

## 5. Eiddo, Cyfarpar ac Offer

| | Tir Rhydd-ddaliad | Adeiladau Rhydd-ddaliad | Cyfarpar ac Offer | Dodrefn a Ffitiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2016-17** | | | | | |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 2,837 | 1,813 | 203 | 260 | 5,113 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - | - |
| Ailbrisiadau | 427 | 273 | 2 | - | 702 |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **3,264** | **2,086** | **205** | **260** | **5,815** |
| Dadbrisiant | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | – | - | (156) | (143) | (299) |
| Priodolwyd yn ystod y flwyddyn | – | (82) | (10) | (17) | (109) |
| Ailbrisiadau | – | 82 | - | (1) | 81 |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **–** | **–** | **(166)** | **(161)** | **(327)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2017** | **3,264** | **2,086** | **39** | **99** | **5,488** |
| **Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2016** | **2,837** | **1,813** | **47** | **117** | **4,814** |
| **Mae'r holl asedau'n eiddo i Swyddfa Cymru** | **3,264** | **2,086** | **39** | **99** | **5,488** |

Syrfewyr siartredig cymwysedig o Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) fydd yn cynnal prisiadau proffesiynol ar y tir a'r adeiladau, sydd i gyd yn ymwneud â Gwydyr House. Maent yn annibynnol ar Swyddfa Cymru yn unol â Llawlyfr Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), a elwir yn 'Llyfr Coch'. Cynhaliwyd y prisiad ffisegol diwethaf 31 Mawrth 2015 ac fe wnaethpwyd prisiadau proffesiynol wrth ddesg yn y blynyddoedd ers hynny.

Bydd pob ased ar wahân i dir ac eiddo ac asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu'n cael eu hailbrisio ar bob dyddiad adrodd gan ddefnyddio mynegai Prisiau'r Cynhyrchwyr a baratoir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## 5.a Eiddo, Cyfarpar ac Offer

| | Tir Rhydd-ddaliad | Adeiladau Rhydd-ddaliad | Cyfarpar ac Offer | Dodrefn a Ffitiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2015-16** | | | | | |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | 2,766 | 1,844 | 157 | 259 | 5,026 |
| Ychwanegiadau | - | - | 45 | - | 45 |
| Ailbrisiadau | 71 | (31) | 1 | 1 | 42 |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **2,837** | **1,813** | **203** | **260** | **5,113** |
| Dirisiant | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | – | - | (153) | (124) | (277) |
| Priodolwyd yn ystod y flwyddyn | – | (80) | (2) | (18) | (100) |
| Ailbrisiadau | – | 80 | (1) | (1) | 78 |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **–** | **–** | **(156)** | **(143)** | **(299)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2016** | **2,837** | **1,813** | **47** | **117** | **4,814** |
| **Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2015** | **2,766** | **1,844** | **4** | **135** | **4,749** |
| **Mae'r holl asedau'n eiddo i Swyddfa Cymru** | **2,837** | **1,813** | **47** | **117** | **4,814** |

Bydd prisiadau proffesiynol ar dir ac adeiladau, sydd i gyd yn berthnasol y Gwydyr House yn cael eu gwneud gan syrfewyr siartredig cymwys o Asiantaeth y Swyddfa Brisio gan ddefnyddio Llawlyfr Arfarnu a Phrisio'r Syrfewyr Siartredig (RICS) a elwir yn 'Llyfr Coch'. Cafodd y prisiad diwethaf ei wneud ar 31 Mwrth 2015. Rhwng prisiadau proffesiynol, bydd yr holl eiddo, offer a chyfarpar yn cael eu prisio drwy ddefnyddio mynegeion.

## 6. Cyfalaf ac Ymrwymiadau eraill

### 6.1 Ymrwymiadau o dan Brydlesi Gweithredol

Rhoddir ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol i dalu rhent yn ystod y flwyddyn yn dilyn blwyddyn y cyfrifon hyn yn y tabl isod.

| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Mae rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:** | | |
| **Adeiladau:** | | |
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 90 | 90 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | 360 | 360 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 1 | 182 |
| **Cyfanswm** | 451 | 632 |

Mae prydles adeiladau'n berthnasol i lety o dan brydles i Swyddfa Cymru yng Nghaerdydd.

## 7. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2016 | 201 | 49 |
| Newid net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | (123) | 152 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | **78** | **201** |

Roedd pob balans yn cael ei ddal gan Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

## 8. Buddsoddiadau

| | Benthyciadau a ariennir drwy'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol |
|---|---|
| | £000 |
| **Cost neu brisiad ar 1 Ebrill 2015** | 11,409 |
| Benthyciadau sy'n ad-daladwy o fewn 12 mis a drosglwyddwyd i symiau derbyniadwy | (79) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | 11,330 |
| Addasiad i'r taliadau cyfalaf yn 2016-17 | (14) |
| Benthyciadau sy'n ad-daladwy o fewn 12 mis a drosglwyddwyd i symiau derbyniadwy | (104) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | **11,212** |

## 9. Symiau Masnach Derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau masnach derbyniadwy | 131 | 46 |
| Symiau TAW derbyniadwy | 6 | 14 |
| Blaendaliadau a rhagdaliadau | 6 | 9 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 15 | 44 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 40 | 46 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad yr NLF – llog derbyniadwy | 129 | 129 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF – cyfalaf | 104 | 79 |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy** | **431** | **367** |

| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn:** | | |
| Blaendaliadau a rhagdaliadau | 4 | 4 |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy** | **4** | **4** |

## 10. Symiau Masnach Taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Mathau eraill o dreth a nawdd cymdeithasol | 50 | 46 |
| Symiau masnach taladwy | 115 | 50 |
| Symiau taladwy eraill | 87 | 94 |
| Croniadau | 495 | 661 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF – cyfalaf | 104 | 79 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF – llog taladwy | 129 | 129 |
| Symiau a ddarparwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer y cyflenwad ond nad oeddent wedi'u gwario erbyn diwedd y flwyddyn | 78 | 201 |
| **Cyfanswm symiau taladwy** | **1,058** | **1,260** |

| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn:** | | |
| Benthyciadau NLF | 11,212 | 11,330 |
| **Cyfanswm symiau taladwy** | **11,212** | **11,330** |

## 11. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau ac Arwystlon

| | Costau Ymddeol yn Gynnar | Costau Dadfeiliad Prydlesi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2015 | 46 | 40 | 86 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | - | - |
| Darpariaethau nad oedd eu hangen yr adferwyd eu gwerth | - | - | - |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (22) | - | (22) |
| Balans ar 1 Ebrill 2016 | 24 | 40 | 64 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | - | - |
| Darpariaethau nad oedd eu hangen a ysgrifennwyd yn ôl | (11) | - | (11) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (13) | - | (13) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | **-** | **40** | **40** |

Costau Ymddeol yn Gynnar yw'r symiau sy' daladwy i gynaelodau o'r staff pan ganiateir iddynt ymddeol yn gynnar o'r gwasanaeth sifil. Gwneir y symiau hyn naill ai ar ffurf taliadau misol (taliadau ACP) nes eu bod yn 60 oed, taliadau unswm neu gyfuniad o'r ddau. Mae ein Darparwr Pensiynau yn amcangyfrif y symiau a ddylai fod yn daladwy i'r unigolion hyn ac mae darpariaeth ar gyfer y symiau hyn yn ein cyfrifon.

Costau dadfeilio'r lesddaliad yw'r symiau posib a allai fod yn daladwy yn y dyfodol wrth roi'r gorau i'r brydles ar gyfer Swyddfa Caerdydd.

### 11.1 Dadansoddi amseru disgwyliadau llifau wedi'u disgowntio.

| | Ymddeol yn Gynnar 2016-17 | Dadfeiliad Prydlesi 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | - | - |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | - | 40 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | **-** | **40** |

| | Ymddeol yn Gynnar 2015-16 | Dadfeiliad Prydlesi 2015-16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 24 | - |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond heb fod yn hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | - | 40 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | **24** | **40** |

## 12. Trafodion partïon cysylltiedig

*Adrannau cysylltiedig a chyrff eraill Llywodraeth ganolog*

Mae Swyddfa Cymru'n ariannu Llywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru'n barti cysylltiedig y mae Swyddfa Cymru wedi cael sawl trafodiad sylweddol â hwy yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal â hyn, mae Swyddfa Cymru wedi cael sawl trafodiad sylweddol ag adrannau eraill yn y llywodrraeth, y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn bennaf a chyrff eraill yn y llywodraeth ganolog.

Nid oes yr un gweinidog, aelod o'r bwrdd, rheolwr allweddol na'r un parti cysylltiedig arall wedi gwneud dim trafodion materol gyda'r Adran yn ystod y flwyddyn.

* Mae'r holl iawndaliadau ar gyfer uwch reolwyr wedi'u datgelu'n llawn yn yr Adroddiad Taliadau.

## 13. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 'Events After the Report Period', ystyrir Digwyddiadau ar ôl y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol hyd at y dyddiad pan awdurdodir y cyfrifon i'w cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifyddu. Dehonglir bod hyn ar yr un dyddiad ac yr ardystir y Cyfrifon gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Ar ôl Etholiad Cyffredinol 2017, ailbenodwyd y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS ac Guto Bebb AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac yn Is-Ysgrifennydd Seneddol Cymru, yn y drefn honno.

# Atodiad1: Tablau Ariannol Craidd Gwariant Cyhoeddus

**TABL 1**

## Gwario gan Swyddfa Cymru & Llywodraeth Cymru 2012-13 to 2019-20

| | 2012-13 alldro £'000 | 2013-14 alldro £'000 | 2014-15 alldro £'000 | 2015-16 alldro £'000 | 2016-17 cynlluniau £'000 | 2016-17 alldro [7] £'000 | 2017-18 cynlluniau £'000 | 2018-19 cynlluniau £'000 | 2019-20 cynlluniau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Swyddfa Cymru** | | | | | | | | | |
| Gwariant ar adnoddau o fewn Costau Gweinyddol | 5,501 | 4,406 | 4,280 | 3,937 | 4,542 | 4,350 | 4,390 | 4,540 | 4,630 |
| Gwariant ar adnoddau eraill | 57 | 43 | 43 | 54 | 180 | 163 | 170 | 110 | 110 |
| **Adnoddau Swyddfa Cymru**[2] | 5,558 | 4,449 | 4,323 | 3,991 | 4,722 | 4,513 | 4,560 | 4,650 | 4,740 |
| Cyfalaf Swyddfa Cymru | 319 | 564 | 117 | 45 | 30 | 0 | 30 | 30 | 30 |
| **TGA Adnoddau + Cyfalaf Swyddfa Cymru**[2] | **5,877** | **5,013** | **4,440** | **4,036** | **4,752** | **4,513** | **4,590** | **4,680** | **4,770** |
| *llai dibrisant a lleihad mewn gwerth* | *-72* | *-71* | *-131* | *-100* | *-120* | *-109* | *-110* | *-110* | *-110* |
| **TGA Swyddfa Cymru**[3] | **5,805** | **4,942** | **4,309** | **3,936** | **4,632** | **4,404** | **4,480** | **4,570** | **4,660** |

## Gwariant Llywodraeth Cymru (Y Floc Cymru)[6]

| | 2012-13 alldro £'000 | 2013-14 alldro £'000 | 2014-15 alldro £'000 | 2015-16 alldro £'000 | 2016-17 cynlluniau £'000 | 2016-17 alldro [7] £'000 | 2017-18 cynlluniau £'000 | 2018-19 cynlluniau £'000 | 2019-20 cynlluniau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | 13,653,771 | 14,466,418 | 14,202,351 | 13,328,115 | 13,908,311 | 13,288,013 | 14,001,637 | 14,066,935 | 14,163,311 |
| Cyfalaf | 1,361,724 | 1,324,687 | 1,500,097 | 1,542,599 | 1,633,632 | 1,485,142 | 1,603,796 | 1,687,573 | 1,798,230 |
| **Cyfanswm Adnoddau + Cyfalaf** | **15,015,495** | **15,791,105** | **15,702,448** | **14,870,714** | **15,541,943** | **14,773,155** | **15,605,433** | **15,754,508** | **15,961,541** |
| *llai dibrisant a lleihad mewn gwerth* | *-406,226* | *-757,100* | *-448,732* | *-513,641* | *-757,312* | *-253,244* | *-636,264* | *-662,945* | *-687,423* |
| **TGA Llwordraeth Cymru**[3] [5] | **14,609,269** | **15,034,005** | **15,253,716** | **14,357,073** | **14,784,631** | **14,519,911** | **14,969,169** | **15,091,563** | **15,274,118** |

(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau 'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.
(2) Yn cynnwys dibrisiant a lleihad mewn gwerth.Including depreciation & impairments.
(3) Adnoddau + cyfalaf – dibrisiant ad mewn gwerth. (cynnwys nam Benthciadau I Fyfyrwyr).
(4) Yn ôl confensiwn mae cyllidebau Terfyn Gwariant Adrannol (TGA) wedi'u mynegi ar ffurf adnoddau a chyfalaf llai dibrisiant a lleihad mewn gwerth. Felly ni fydd swm y rhifau am adnoddau a chyfalaf yn y tabl hwn yn cyfateb i'r Terfyn Gwariant Adrannol: y gwahaniaeth yw dibrisiant a lleihad mewn gwerth.
(5) Mae ffigurau TGA am flynyddoedd alldro wedi'u haddasu i adlewyrchu newidiadau mewn cyllidebu a gafwyd wedyn.
(6) O Adolygiad o Wariant 2015, gwariant Swyddfa Cymru bellach ymn rhan o Floc Cymru.
(7) Alldro Swyddfa Cymru y data yn cynrychioli alldro terfynol a bydd yn cyd-fynd a'r cyfrifon cyhoeddedig mewn man arall yn y ddogfen hon. Mae data Llwodraeth Cymru yn dangos canlyniad dros wrth i Lywodraeth Cymru i gwbihau eu cyfrifon eto.

## TABL 2

## Newidiadau yn Nherfyn Gwariant Adrannol Llwordraeth Cymry rhwng 2012-13 to 2019-20 ers cyhoeddi Adroddiad Chyfrifon 2015-16

| | 2012-13 Alldro £m | 2013-14 Alldro £m | 2014-15 Alldro £m | 2015-16 Alldro £m | 2016-17 Alldro Dros Do £m | 2017-18 Cynlluniau £m | 2018-19 Cynlluniau £m | 2019-20 Cynlluniau £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **TGA Cyfalaf a TGA Adnoddau: Mehefin 2016** | **15,015.495** | **15,791.105** | **15,702.448** | **14,871.511** | **15,232.941** | **15,437.378** | **15,586.042** | **15,789.592** |
| Trosglwyddo rhwng Adrannau | | | | | | | | |
| o BEIS: Effeithlonrwydd Ynn | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 2.709 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| gan HO: Mewnfudo Gordal Iechyd | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 3.232 | 7.180 | 0.000 | 0.000 |
| gan DCMS: Amgueddfa Lloyd George | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.027 | 0.027 | 0.027 |
| Polisi Gwariant | | | | | | | | |
| Cyfnewid Cyllidebau | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 141.323 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Cronfa Cymunedau Arfordirol | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 2.640 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Gwarchodfa Hawlio: CFER'd Mewnfudo Gordal Iechyd | 0.000 | 0.000 | 0.000 | *0.000* | 1.146 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Ad-daliad arian parod Rheolaeth | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.175 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Elusennau Ambiwlans Awyr (dirwyon LIBOR) | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 1.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Cronfeydd Strwythurol – Gorllewin Cymru | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 3.807 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Pensiynau Tân | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.350 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Gwarchodfa Hawlio: Namau Benthyciad Myfyriwr | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 150.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Symiau Canlyniadol Barnett | | | | | | | | |
| Datganiad yr Hydref 2016 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 1.521 | 77.655 | 107.122 | 129.061 |
| Cyllideb y gwanwyn 2017 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 83.193 | 61.317 | 42.861 |
| Barnett symiau canlyniadol o Warchodfa DCMS Hawliad | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 1.099 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Alldro Adrannol (tanwariant o'l gymharu a'r cynlluniau terfynol) | | | | | | | | |
| Alldro Terfynol 2015-16 | 0.000 | 0.000 | *0.000* | -0.797 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Alldro Dros Do 2016-17 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | *0.000* | -768.788 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| ***Is-gyfanswm*** | 0.000 | 0.000 | ***0.000*** | ***-0.797*** | **-459.786** | **168.055** | **168.466** | **171.949** |
| **TGA Cyfalaf a TGA Adnoddau: Mehefin 2016** | **15,015.495** | **15,791.105** | **15,702.448** | **14,870.714** | **14,773.155** | **15,605.433** | **15,754.508** | **15,961.541** |

(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau 'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu..

## TABL 3

## Grant arian a dalwyd I Gronfa Gyfunol Cyrmru 2015-16: Darpariaeth ac Alldro Terfynol

| | Darpariaeth Wreiddiol £'000 | Darpariaeth Derfynol £'000 | Amcangyfrif o'r Alldro £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant a ddynodwyd yn TGA[(2)] | 15,040,606 | 15,120,419 | 14,870,714 |
| Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | 647,476 | 301,424 | 77,159 |
| Trethi Annomestig | 956,000 | 956,000 | 956,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **16,644,082** | **16,377,843** | **15,903,873** |
| *Llai:* | | | |
| *Gwariant sydd heb ei ddyfarnu:* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd Awdurdodau Lleol | 88,800 | 88,800 | 88,800 |
| Gwariant arall sydd heb ei ddyfarnu | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| Adnoddau a Neiltuwyd nad ydynt yn arian | 626,499 | 640,095 | 513,641 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol nad yw'n arian | 201,635 | -137,432 | -270,716 |
| **CYFANSWM Y TGA NAS DYFARNWYD** | **923,012** | **597,541** | **337,803** |
| **CYFANSWM Y TGA A DDYFARNWYD** | **15,721,070** | **15,780,302** | **15,566,070** |
| *Llai:* | | | |
| **Cyfraniadau o'r Gronfa Yswirianmt Gwladol** | | | |
| Derbyniadau a ddyfarnwyd | 1,081,564 | 1,103,144 | 1,103,144 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | 956,000 | 956,000 | 970,433 |
| *Ychwanegwch:* | | | |
| **Addasiadau Amseru** | | | |
| Cynnydd/Costyngiad mewn Dyledwyr a Creditors | 120 | 35,120 | -176,015 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 266 | 0 | 75,446 |
| Grant arian sy'n daladwy I Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru | | | 667 |
| **Grant Arian sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru[(3)]** | **13,683,892** | **13,756,278** | **13,392,591** |

Notes:
(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau 'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.
(2) Adnoddau + cyfalaf TGA yn cynnwys dibrisiant.
(3) Dedd Llwodraeth Cymru 2006, Adran 118 (2).

## TABL 4

## Grant arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2016-17: Darpariaeth ac Amcangyfrif o'r Alldro

| | Darpariaeth Wreiddiol £'000 | Darpariaeth Derfynol £'000 | Amcangyfrif o'r Alldro £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant a ddynodwyd yn TGA[2] | 15,232,941 | 15,541,943 | 14,773,155 |
| Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | 557,080 | 718,911 | 661,059 |
| Trethi Annomestig | 977,000 | 977,000 | 977,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **16,767,021** | **17,237,854** | **16,411,214** |
| Llai: | | | |
| *Gwariant sydd heb ei ddyfarnu:* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd Awdurdodau Lleol | 88,800 | 88,800 | 88,800 |
| Gwariant arall sydd heb ei ddyfarnu | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| Adnoddau a Neiltuwyd nad ydynt yn arian | 589,240 | 757,312 | 253,244 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol nad yw'n arian | 110,403 | 240,260 | 270,478 |
| **CYFANSWM Y TGA NAS DYFARNWYD** | **794,521** | **1,092,450** | **618,600** |
| | | | |
| **CYFANSWM Y TGA A DDYFARNWYD** | **15,972,500** | **16,145,404** | **15,792,614** |
| Llai: | | | |
| **Cyfraniadau o'r Gronfa Yswirianmt Gwladol** | | | |
| Derbyniadau a ddyfarnwyd | 1,140,187 | 1,140,652 | 1,140,652 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | 977,000 | 1,034,452 | 1,034,452 |
| Ychwanegwch: | | | |
| **Addasiadau Amseru** | | | |
| Cynnydd/Costyngiad mewn Dyledwyr a Creditors | 620 | 60,620 | -158,190 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 0 | 0 | 67,409 |
| Grant arian sy'n daladwy I Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru | | | -1,103 |
| | | | |
| **Grant Arian sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru[3]** | **13,855,933** | **14,030,920** | **13,525,626** |

Notes
(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau 'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.
(2) Adnoddau + cyfalaf TGA yn cynnwys dibrisiant
(3) Dedd Llwodraeth Cymru 2006, Adran 118 (2).

## TABL 5
## Grant arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2017-18

| | Darpariaeth £'000 |
|---|---|
| Gwariant a ddynodwyd yn TGA | 15,605,433 |
| Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | 754,198 |
| Gwariant Cyllidwyd gan Benthyca Cyfalaf | 20,000 |
| Trethi Annomestig | 1,059,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **17,438,631** |
| Llai: | |
| *Gwariant sydd heb ei ddyfarnu:* | |
| Cymeradwyaethau Credyd Awdurdodau Lleol | 88,800 |
| Gwariant arall sydd heb ei ddyfarnu | 6,078 |
| *Deddf Cymru 2014 Trafodion:* | |
| Benthyca Cyfalaf | 20,000 |
| Adnoddau a Neiltuwyd nad ydynt yn arian | 636,264 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol nad yw'n arian | 204,937 |
| **CYFANSWM Y TGA NAS DYFARNWYD** | **956,079** |
| **CYFANSWM Y TGA A DDYFARNWYD** | **16,482,552** |
| Llai: | |
| **Cyfraniadau o'r Gronfa Yswirianmt Gwladol** | |
| Derbyniadau a ddyfarnwyd | 1,163,325 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | 1,001,278 |
| Ychwanegwch: | |
| **Addasiadau Amseru** | |
| Cynnydd/lleihad mewn derbyniadwyon a taladwyon | 0 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 0 |
| **Grant arian sy'n daladwy I Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru** | **14,317,949** |

ISBN 978-1474147330